Arolygiad ar y cyd o Dimau Troseddau Ieuenctid

Adroddiad Blynyddol 2004/2005

RHAGAIR

Unwaith eto mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn ar ran y naw arolygiaeth a chorff rheoleiddio sy'n cymryd rhan yn y rhaglen i arolygu'r 155 o dimau troseddau ieuenctid (TTI) yng Nghymru a Lloegr. Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyflawniadau pawb a fu'n gweithio mor galed i gynnal dau gam cyntaf y rhaglen arolygu ar y cyd hon.

Negeseuon sy'n deillio o'r adroddiad hwn:

1) Gyda'n gilydd, unwaith eto, rydym yn dangos y gall arolygiadau ar y cyd weithio, a'u bod yn gweithio – cynsail calonogol gan fod y Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted) bellach yn dechrau ar y gwaith o arwain arolygiad ar y cyd llawer mwy uchelgeisiol o wasanaethau plant yn y Cydadolygiadau Ardal.

2) Mae'r safonau perfformiad a bennwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) a'r meini prawf arolygu a bennwyd gan y rhaglen hon, gyda'i gilydd yn darparu'r meincnod y mae angen i TTI geisio ei gyflawni.

3) Canfuom fod gan bob TTI ei gryfderau ei hun a meysydd i wella arnynt. Prin yw'r patrymau cyffredinol, ond mae angen i'r mwyafrif ohonynt wella eu prosesau ar gyfer asesu a rheoli'r perygl o niwed i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â rhai o'r plant a phobl ifanc o dan eu goruchwyliaeth.

4) Mae gwaith TTI yn cwmpasu dau fyd sef gwasanaethau plant a'r System Cyfiawnder Troseddol – mae angen iddynt ddiogelu lles a datblygiad y plant a'r bobl ifanc y maent yn eu goruchwylio, ond hefyd eu hatal rhag troseddu a rhag achosi perygl o niwed i'r cyhoedd. Canmolwn hwy am ymgymryd â'r broses arolygu gydag agwedd gadarnhaol, gyda'r nod o ddefnyddio'r broses i gynorthwyo wrth wella eu gwasanaeth.

5) Ein nod yw parhau i alluogi'r gwaith hwn o wella'r gwasanaeth, yng nghyd-destun y Cydadolygiadau Ardal sy'n dechrau yn ystod hydref 2005, yn ogystal â helpu i wella effeithiolrwydd cyffredinol y System Cyfiawnder Troseddol yn ei chyfanrwydd.

Andrew Bridges
Prif Arolygydd Prawf

Y TÎM AROLYGU 2004/2005

Cynhelir y rhaglen arolygu ar y cyd gan:

- Y Comisiwn Archwilio
- Y Comisiwn dros Arolygu Gofal Cymdeithasol (CSCI)
- Estyn (Arolygiaeth EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)
- Y Comisiwn Gofal Iechyd
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM
- Arolygiaeth Carchardai EM
- Arolygiaeth Prawf EM
- Ofsted
- Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Arolygiaeth Prawf EM sy'n gyfrifol am raglen arolygu'r TTI ac yn ei harwain, dan reolaeth Liz Calderbank, Prif Arolygydd Cynorthwyol Arolygiaeth Prawf EM.

Cynhaliwyd yr arolygiadau gan:

Arolygiaeth Prawf EM

Jane Attwood
Helen Boocock
Mark Boother
Trevor Brunton
Rose Burgess
Helen Cash
Ben Clark
Julie Fox
Jude Holland
Kam Kaur
Shirley Magilton
Ian Menary
Joseph Simpson
Ray Wegrzyn

Y Comisiwn dros Arolygu Gofal Cymdeithasol

Rhona Bradley
Yvette King
Vivienne O'Neale

Estyn

Linda Howells
Gerard Kerslake
Roger Rowett
Claire Yardley

Y Comisiwn Gofal Iechyd

Maddie Blackburn
Judith Harvey
Christine Hopton
Diane Lukeman
Justin Thacker
Rob Willoughby

Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM

Steve Glass
Mike Mullis

Arolygiaeth Carchardai EM

Ian Macfadyen

Ofsted

Louise Atkin
Jon Bowman
Stella Butler
Harriet Gore
Anne Keelan Towner
Bill Massam
Maureen McDaid
David White
Phil Whittaker

Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Sheila Booth
John Llewellyn Thomas

Darllenwyd ffeiliau achosion ar arolygiadau gan y canlynol:

Jo Bergdahl
Suki Binning
Penny Davies
Stephanie Mason
Nikki Shave

Cynorthwywyd y rhaglen arolygu gan:

Natalie Dewsnap
Grace Dickin
Rachel Dwyer

MYFYRIO AR Y FLWYDDYN

Yn ystod 2004/2005 cwblhawyd cam cyntaf y rhaglen arolygu TTI, pan gynhaliwyd arolygiadau o 15 TTI. Y rhaglen arolygu yw'r gyntaf i arolygu pob un o'r 155 TTI ar sail gylchol a datblygwyd y cam cyntaf i sefydlu meincnodau y gellid eu defnyddio i asesu perfformiad. Dewiswyd y 15 TTI cyntaf o grŵp o dros 30 o wirfoddolwyr ac roeddent yn cynnwys TTI o Gymru a'r rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr.

Defnyddiwyd canfyddiadau'r 15 arolygiad cyntaf i goethi'r fethodoleg arolygu ar gyfer yr ail gam, a ddechreuodd ym mis Medi 2004 ac a fydd yn parhau i dymor hydref 2005, gyda'r gwaith maes yn cael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2005. Yn wreiddiol disgwyliwyd i'r cam hwn ffurfio craidd y rhaglen arolygu a disgwyliwyd iddo bara tair blynedd o leiaf, ac y byddai 30 TTI yn cael eu harolygu bob blwyddyn.

Fodd bynnag, daeth yn amlwg ar ôl cyhoeddi'r papur gwyrdd *Mae Pob Plentyn yn Bwysig* (2003) a phasio'r Ddeddf Plant ym mis Tachwedd 2004, y byddai'n rhaid adolygu'r cynlluniau hyn i ystyried y broses o weithredu Cydadolygiadau Ardal o wasanaethau plant, dan arweiniad Ofsted, ym mis Medi 2005.

Felly, penderfynwyd gwneud mân newidiadau yn unig rhwng camau un a dau, gan ddisgwyl am y broses arfaethedig o gyfuno meini prawf a methodoleg arolygu'r TTI â meini prawf a methodoleg y Cydadolygiadau Ardal. Roedd y ddau brif newid yn golygu addasu'r dull o sgorio ac ymgorffori gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ac sydd mewn perygl o droseddu, gyda gwaith gyda rhieni/gofalwyr i ffurfio un categori. Felly, mae arolygiadau cam dau yn cwmpasu:

- rheolaeth a threfniadau partneriaeth
- gweithio gyda phlant a phobl ifanc
- dioddefwyr a chyfiawnder adferol.

Penderfynwyd gwneud y newidiadau hyn o ganlyniad i brofiad cam un. Mewn sawl achos, gwelwyd bod gwaith i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu a gwaith gyda rhieni/gofalwyr, yn briodol, yn cael ei wneud drwy eu cyfeirio at wasanaethau prif ffrwd, y tu allan i gylch gwaith ein rhaglen arolygu. Roedd y rhan a gymerwyd gan y TTI yn amrywio'n sylweddol ac roeddent yn cymryd rhan fawr mewn rhai awdurdodau, a rhan fach mewn awdurdodau eraill. Roeddem yn ymwybodol y bwriedid cynnwys y gwasanaethau prif ffrwd hyn yn y Cydadolygiadau Ardal ac roeddem yn benderfynol o ddefnyddio ein hadolygiad i ganolbwyntio ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â TTI. Galluogodd y broses o greu'r categori 'gweithio gyda phlant a phobl ifanc' i ni wneud hynny.

Daethom yn gynyddol ymwybodol, yn ystod cam cyntaf yr arolygiad, bod TTI yn ystyried 'boddhaol' yn ein hasesiad fel cydnabyddiaeth annigonol o'r gwaith a wnaed, yn hytrach na chadarnhad o'u potensial, fel y bwriadwyd. Felly, penderfynwyd newid enw'r categori hwn i 'sail dda i ddatblygu arni', gan fod hyn yn adlewyrchiad mwy cywir o gyflawniad. Roeddem hefyd yn benderfynol, ac yn parhau i fod yn benderfynol, o ddefnyddio'r broses o arolygu TTI fel un o nifer o ddulliau i wella perfformiad a chanolbwyntio sylw ar reolaeth a threfniadau partneriaeth a'r gwaith a wneir gyda phlant a phobl ifanc i'w hatal rhag troseddu ac aildroseddu. Felly, rydym yn benderfynol y byddai angen asesu bod TTI wedi 'cyflawni'n llawn' yn o leiaf un o'r ddwy agwedd graidd hyn er mwyn cael eu gosod yn y categori 'da'.

Fodd bynnag, dylid nodi nad yw effaith y newidiadau hyn, o ran strwythur yr arolygiad a'r dull o sgorio, yn ein galluogi i gymharu'r canlyniadau rhwng dau gam yr arolygiad. Mae ail gam yr arolygiad yn fwy llym a byddai rhai TTI a fyddai'n sicr wedi cael asesiad 'da' yn yr asesiad yng ngham un, yn aros yn y categori 'sail dda i ddatblygu arni'. Lle y digwyddodd hyn, rydym wedi rhoi sylwadau ar gyflawniadau penodol y TTI unigol yn yr asesiad cyffredinol. Er i ni wneud hyn, rydym yn cydnabod nad yw'r system sgorio bresennol yn ein galluogi i wahaniaethu rhwng TTI ar frig categori a TTI sydd ar waelod yr un categori. Er i ni wrthod y syniad o gael system raddio rifol i ddechrau am ein bod o'r farn ei fod yn amhriodol, o ystyried y broses ddiweddar o gyflwyno TTI fel sefydliadau, rydym bellach, o ganlyniad i hynny, yn ystyried cyflwyno dull ehangach o sgorio yn nhrydydd cam yr arolygiad fel ffordd o nodi'r amrywiadau hyn mewn perfformiad.

CASGLIAD

Yn anochel, rydym bellach yn canolbwyntio ar weithredu cam tri y rhaglen arolygu a'i gyfuno â'r Cydadolygiadau Ardal. Wrth edrych yn ôl ar y gwaith a wnaed mor belled, gallwn ddefnyddio ein profiad o arolygu bron i chwarter y TTI ar draws Cymru a Lloegr erbyn mis Ebrill 2005. Wrth wneud hyn, rydym wedi datblygu cronfa ddata sylweddol o berfformiad TTI yn erbyn agweddau allweddol ar ddarparu gwasanaeth, a fydd yn gweithredu fel meincnodau ar gyfer y rhaglen arolygu yn y dyfodol. Nodir y prif ganfyddiadau o'r arolygiadau hyn yn yr adroddiad hwn.

AROLYGIADAU TTI 2004/2005

Yn ystod cam cyntaf y rhaglen arolygu TTI, a ddaeth i ben ym mis Awst 2004, arolygwyd y TTI canlynol:

Halton a Warrington	Sheffield	Milton Keynes	Conwy-Sir Ddinbych	Havering
Caerdydd	Swydd Gaerhirfryn	Swydd Durham	Slough	Swydd Gaerlŷr
Stoke-on-Trent	Swydd Rydychen	Suffolk	Enfield	Castell-nedd Port Talbot

Yn ystod yr ail gam hwn o'r rhaglen arolygu, cyhoeddwyd adroddiadau ar:

Cofentri	Medway	Lambeth	Salford	Thurrock
Gogledd Tyneside	Cymbria			

Cwblhawyd gwaith maes arolygiadau yn:

Stockport	Islington	Tower Hamlets a Dinas Llundain	Merthyr Tudful	Kingston-upon-Hull
Bryste	Wrecsam	Swydd Gaerwrangon a Swydd Henffordd	Barking a Dagenham	Dyfnaint

Cwblheir gwaith maes yn ystod 2005/2006 yn arolygiadau'r TTI canlynol:

Sefton	Gwlad yr Haf	Dinas Derby	Walsall	Wiltshire
Sandwell	Efrog	Rochdale	Hackney	Northumberland
Merton	Swydd Buckingham			

METHODOLEG

Bu'r fethodoleg arolygu yng ngham dau yn gymharol debyg i'r fethodoleg yng ngham un. Yn ystod yr wythnos gyntaf, rydym yn archwilio sampl o ffeiliau achosion ar hap – digon i gynrychioli gwaith cyffredinol y TTI, rydym yn cyfweld â'r rheolwr achos yn hanner yr achosion a ddewiswyd a, lle y bo'n bosibl, rydym yn cwrdd â'r plentyn neu'r person ifanc, eu rhieni/gofalwyr ac, os yw'n briodol, y dioddefwr.

Fel arfer bydd un, weithiau dau, o staff y TTI yn cymryd rhan yn ystod y cam hwn fel aelodau o'r tîm arolygu. Credwn fod eu cyfranogiad o fudd i'r arolygiad ei hun ac o fudd i'r TTI, gan hybu perchenogaeth well o'r canfyddiadau.

Mae ail wythnos yr arolygiad yn cynnwys cyfarfodydd â'r prif weithredwr ac uwch reolwyr yr awdurdod lleol, rheolwr a staff y TTI, a chynrychiolwyr o'r asiantaethau partner. Caiff y trafodaethau hyn eu llywio gan ganlyniadau'r broses o ddarllen y ffeiliau achosion yn ystod yr wythnos gyntaf. Yna caiff perfformiad y TTI ei asesu yn erbyn meini prawf yr arolygiad. Bydd pob arolygiad yn cloi gan gyhoeddi adroddiad.

CANFYDDIADAU'R AROLYGIADAU

Mae'r graddau o arfer da ar draws TTI wedi gwella ers cam un. Mae'r ffocws ar waith ataliol a datblygu rhaglenni hynod arloesol sy'n cynnwys cydweithredu effeithiol rhwng asiantaethau wedi cynyddu cwmpas ac ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael i TTI. Mae hyn yn arbennig o wir mewn awdurdodau lleol lle ceir prosesau cadarn o ran gweithio mewn partneriaeth â'r prosesau hynny sydd wedi'u hymgorffori o fewn fframwaith strategol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a lle rhoddir blaenoriaeth i ymrwymiad i gynhwysiant cymdeithasol.

RHEOLAETH STRATEGOL A'R TTI

RÔL Y BWRDD RHEOLI

Roedd llawer o'r awdurdodau yr ymwelwyd â hwy yn ystod 2004-2005 wrthi'n aildrefnu eu gwasanaethau plant i roi mwy o bwyslais ar ganlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc, ac, fel rhan o'r ad-drefnu cyffredinol hwn, roeddent yn ailystyried rôl y TTI a'i safle o fewn strwythur y cyngor. Roedd nifer sylweddol yn defnyddio'r achlysur fel cyfle i ail-archwilio rôl bwrdd rheoli'r TTI.

Fel yng ngham un yr arolygiad, gwelwyd bod safle strategol y TTI, boed hynny yn adran y prif weithredwr fel rhan o'r strategaeth diogelwch cymunedol neu yn yr adran gwasanaethau plant newydd, yn llai pwysig na'r angen i gael llinellau atebolrwydd clir ar gyfer y TTI o'r prif weithredwr drwy'r bwrdd rheoli.

Yr hyn sy'n bwysig yw bod cyfraniad penodol y TTI, yn atal plant a phobl ifanc rhag troseddu, yn cael ei gydnabod ar draws yr agendâu diogelwch cymunedol, cyfiawnder troseddol a lles plant. Mae rôl y bwrdd rheoli a chyfranogiad sefydliadau partner yn hanfodol yn y broses hon. Yn y TTI sy'n perfformio orau, roeddem yn falch o weld byrddau rheoli cryf, yn rhoi cyfarwyddyd a ffocws clir i waith y TTI. Mae'r byrddau hyn yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth sydd ar gael i hyrwyddo diwylliant o reoli perfformiad ac yn sicrhau bod rheolwr y TTI yn atebol am waith y tîm.

CYFRANIAD SEFYDLIADAU PARTNER

Mae'r cyfraniad a wneir gan sefydliadau partner tuag at y bwrdd rheoli yn amrywio'n sylweddol, o fewn awdurdodau a rhwng awdurdodau, ond mae'n angenrheidiol i arwain gwaith y TTI, yn ogystal â sicrhau y caiff anghenion a gofynion y TTI eu bwydo yn ôl i'r asiantaethau partner priodol.

Mae trefniadau partneriaeth a sefydlwyd drwy'r gyfarwyddiaeth addysg neu'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau plant, wedi gwella wrth i waith y TTI

ennill ei blwyf ac wrth i'r cyfeiriad strategol ddod yn fwy eglur. Mae un o uwch swyddogion y cyngor, fel cyfarwyddwr neu gyfarwyddwr cynorthwyol yr awdurdod addysg lleol (AALl) neu ofal cymdeithasol, yn aelod o'r bwrdd rheoli ac yn gyfrifol yn gyffredinol am gyfeiriad strategol y TTI. Fodd bynnag, mae presenoldeb uwch aelodau o staff addysg mewn cyfarfodydd o'r bwrdd rheoli yn amrywio. Mae'r trefniadau gweithio fwyaf effeithiol pan fydd uwch swyddogion yn cymryd rhan amlwg mewn prosesau cynllunio a datblygu strategol. Lle ceir llai o gyfranogiad, adlewyrchir hyn yn aml mewn materion gweithredol, er enghraifft, ni cheir digon o arian i fodloni gofynion y tîm ac mae'n anodd nodi darpariaeth amgen o fewn yr AALl i blant a phobl ifanc oherwydd rhwydweithiau gwan a gweithdrefnau annigonol.

Mae cynrychiolwyr iechyd ar fyrddau rheoli yn amrywio o ran lefel eu statws, cyfrifoldebau, argaeledd a'u mewnbwn. Ceir rhai bylchau mewn aelodaeth ac, mewn rhai achosion, nid yw'r cynrychiolwyr yn ddigon cyfarwydd â'r materion gweithredol sy'n effeithio ar staff iechyd/camddefnyddio sylweddau. Er enghraifft, pan fydd gan gyfarwyddwr iechyd y cyhoedd ymddiriedolaeth gofal sylfaenol brif gyfrifoldeb dros agweddau eraill ar iechyd plant a phobl ifanc ar draws ymddiriedolaethau gofal sylfaenol cyfagos, mae hyn yn sicrhau parhad, cysondeb a chydlyniad o ran lefel strategol cyfraniad iechyd i fwrdd rheoli'r TTI. Gall y person hwn hefyd weithredu fel llwybr effeithiol i gynnwys materion TTI o fewn rôl comisiynu a darparu'r ymddiriedolaethau gofal sylfaenol. Pan na fydd gan yr aelod iechyd awdurdod i gomisiynu, gall hyn ddylanwadu ar y blaenoriaethau ariannu ac ar ddealltwriaeth o'r ddarpariaeth statudol ar gyfer iechyd o fewn TTI.

DARPARU ADNODDAU A THREFNIADAU STAFFIO

Mae lefel yr adnoddau a ddyrennir i TTI o bob awdurdod lleol yn amrywio ar draws y wlad. Nid yw hyn wedi newid yn sylweddol ers cam un. Nid yw'n syndod bod darparu adnoddau ar gyfer TTI a secondio staff yn parhau i fod yn broblem i lawer o dimau, yn arbennig mewn ardaloedd sy'n cael anawsterau wrth recriwtio aelodau o staff â chymwysterau addas o bob disgyblaeth. Yn ein barn ni, mae angen archwilio'r broblem secondio staff ymhellach er mwyn i gyflawniadau cadarnhaol TTI fel sefydliadau aml-asiantaethol barhau. Dim ond os byddant yn cyflawni amcanion y rhiant-asiantaeth, yn ogystal â'r TTI ei hun y bydd secondiadau yn gynaliadwy. Yn rhy aml yn ein harolygiad, gwelwyd trefniadau penagored heb lawer o gysylltiad rhwng aelodau o staff a secondiwyd a'u rhiant-sefydliadau. Mae amgylchiadau o'r fath yn cynrychioli cyfle a gollwyd i'r TTI a'i sefydliadau partner.

O ran gwasanaethau arbenigol, mae'r rhan fwyaf o TTI wedi secondio gweithwyr iechyd, er bod rhai gwahaniaethau rhwng gwasanaethau sydd angen rhoi sylw brys iddynt. Mae ystyr arbenigwr iechyd TTI yn destun trafodaeth sylweddol o hyd. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt gefndir mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) neu mewn nyrsio seiciatrig er bod rhai, fel yng Ngwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI) Islington, yn seicolegwyr clinigol a bod eraill, fel yn TTI Salford, er yn brin, yn nyrsys cyffredinol cofrestredig sydd wedi gweithio mewn ymddiriedolaethau acíwt. Mae llawer o'r TTI mwy a chanddynt arbenigwr

iechyd CAMHS hefyd wedi nodi'r angen am arbenigwr iechyd cyffredinol i gwmpasu sgrinio datblygiadol, imiwneiddio a'r gwaith o roi cyngor iechyd rhywiol i blant a phobl ifanc.

Ar gyfer addysg, fel arfer dyrennir arian i TTI naill ai'n anuniongyrchol drwy secondio staff addysg, neu drwy dalu grant bloc yn uniongyrchol. Mae trefniadau gweithio agos rhwng y TTI a'r AALl yn hanfodol, er na cheir tystiolaeth o hyn bob tro, er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd angen cymorth addysgol. Dylanwedir ar ansawdd y ddarpariaeth yn uniongyrchol gan ansawdd y trefniadau partneriaeth ym mron bob achos. Mae mwy o fuddsoddiad mewn cymorth addysgol o fewn TTI yn sicrhau canlyniadau gwell o ran ansawdd ac argaeledd darpariaeth briodol i blant a phobl ifanc ac o ran nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n manteisio ar y ddarpariaeth honno. I'r gwrthwyneb, mae buddsoddiad cyfyngedig ar lefel bartneriaeth weithredol a strategol hefyd yn arwain at anghysondebau o ran ansawdd y cymorth a'r ddarpariaeth addysgol, gyda chanlyniadau is yn gyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc o ran eu cyfranogiad mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r cysylltiadau gydag ysgolion yn effeithiol a cheir cysylltiad rhwng gwaith partneriaeth arloesol o safon a mentrau cynhwysiant cymdeithasol. Caiff staff addysgol eu secondio i'r TTI a chaiff eu cydberthynas waith gyda'u hadran secondio ei chynnal a rhoddir blaenoriaeth iddi. Fodd bynnag, yn yr achosion hynny lle daw'r cyllid drwy gyfrwng grant uniongyrchol, mae'r sefyllfa'n fwy amrywiol. Mewn nifer o enghreifftiau lleihawyd rôl yr arbenigwr addysg, ac mae'r cysylltiadau â'r AALl wedi dod yn llai amlwg wrth i'r rôl gyffredinol gael ei datblygu. Mae'n cymryd mwy o amser i ddyrannu darpariaeth briodol i blant a phobl ifanc o dan yr amgylchiadau hyn ac mae'n llai tebygol o ddiwallu eu hanghenion unigol.

HYFFORDDIANT A GORUCHWYLIO STAFF

Rhoddwyd mwy o sylw i'r gwaith o hyfforddi staff, gyda llawer yn gweithio i gyflawni Tystysgrif Broffesiynol y BCI mewn Arfer Effeithiol, a rheolwyr yn astudio tuag at gymwysterau rheolaeth perthnasol. Rydym yn parhau i fod yn bryderus ynghylch y ffaith nad oes hyfforddiant ar gael mewn rhai TTI ar gyfer meysydd gwaith craidd, fel asesu, rheoli risg a diogelu. Yn yr un modd, roedd y prosesau sefydlu ar gyfer staff newydd yn amrywiol.

Mae gan y rhan fwyaf o staff iechyd a secondiwyd drefniadau da ar gyfer hyfforddi a goruchwylio o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y GIG) ac yn yr un modd, cânt gymorth da gan dîm rheoli'r TTI. Cynhelir proses werthuso fel arfer gan eu rheolwyr GIG neu o fewn y TTI, er nad yw'r cyfrifoldebau hyn wedi'u diffinio'n glir ac yn gyson gan y TTI na'r GIG bob tro. Gweithwyr ieuenctid yw gweithwyr camddefnyddio cyffuriau a sylweddau yn aml, wedi'u secondio gan y cyngor, asiantaeth wirfoddol, neu'n llai cyffredin, gan y GIG. Mae'r oruchwyliaeth a'r hyfforddiant a gânt a'r cymwysterau sydd ganddynt yn amrywio ac mewn rhai achosion maent yn annigonol, yn ein barn ni, ar gyfer eu lefel o gyfrifoldeb.

Yn gyffredinol, mae staff addysg yn cael cymorth a goruchwyliaeth reolaidd drwy dîm rheoli'r TTI, ond mae effeithiolrwydd trefniadau o'r fath yn amrywiol. Os cânt eu secondio i'r TTI, bydd staff addysg yn cael

goruchwyliaeth dda mewn perthynas â'u rôl arbenigol, ond efallai y rhoddir llai o sylw i'w gwaith fel gweithwyr achos cyffredinol. Bydd rhai aelodau o staff a gaiff eu secondio yn cadw contract addysgu gyda hawl i gael gwyliau ysgol llawn. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n anochel bod y bylchau mewn cymorth a darpariaeth addysg yn ystod y cyfnodau gwyliau hyn a allai fod yn brysur yn golygu bod gwaith addysg yn dod i ben yn sydyn yn ystod yr adegau hyn.

Pan fydd cysylltiadau â'r AALl yn dda, bydd aelodau o staff yn gallu manteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd datblygu a hyfforddi proffesiynol. Mae'n glir iawn pan fydd staff addysg yn canolbwyntio eu gweithgaredd craidd ar ddiwallu anghenion addysgol neu hyfforddi plant a phobl ifanc, y cyflawnir canlyniadau gwell. Mewn lleiafrif o enghreifftiau, nid oes gweithwyr addysg wedi'u sefydlu neu rhoddwyd rôl gyffredinol iddynt o fewn y TTI ac ni roddir blaenoriaeth i waith addysg. Nid yw'n syndod gweld, yn yr amgylchiadau hyn, bod nifer y plant a'r bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn sylweddol uwch nag yn y TTI hynny lle mae gan weithwyr arbenigol rôl arweiniol mewn perthynas â materion addysgol.

PROTOCOLAU GYDA SEFYDLIADAU PARTNER

Mae'r rhan fwyaf o'r TTI wedi datblygu a chytuno ar brotocolau gyda'u partneriaid statudol, er yn y rhan fwyaf o achosion bod cwmpas y dogfennau hyn yn gymharol gyfyngedig a'u bod yn aml yn dyddio'n ôl i adeg sefydlu'r TTI.

Rydym yn siomedig na chaiff protocolau eu defnyddio'n fwy rhagweithiol, fel math o gytundeb lefel gwasanaeth i ddiffinio, ymysg pethau eraill, y trefniadau secondio i'r TTI, lefel y cymorth a roddir i staff a secondiwyd gan eu rhiant sefydliad a throthwyon cyfeirio rhwng yr asiantaethau dan sylw. Mae'r angen am brotocolau rhannu gwybodaeth i'r holl bartneriaid yn berthnasol, yn arbennig mewn perthynas â gwybodaeth sensitif, benodol, sy'n ymwneud ag iechyd.

RÔL RHEOLWR Y TTI

Mae'n anochel bod y newidiadau strategol yn lleoliad y TTI wedi codi proffil rheolwr y TTI ac wedi golygu, mewn sawl achos, eu bod wedi cymryd rolau ychwanegol ar draws yr awdurdod lleol, fel pennaeth gwasanaeth. Mae'r symudiadau hyn, yn eu tro, wedi effeithio ar rôl y rheolwyr gweithredol ac wedi amlygu pwysigrwydd trawsnewid eu rôl o uwch ymarferwyr i reolwyr perfformiad. Mae'r disgwyliadau y mae'r arolygiad yn ei roi ar y grŵp hwn o reolwyr yn uchel ac maent yn adlewyrchu pwysigrwydd eu cyfraniad i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn effeithiol, wrth oruchwylio a gwerthuso eu staff ac wrth ddefnyddio data i lywio a gwella arfer.

Bron yn ddieithriad, creodd ansawdd staff y TTI, y cyfarfûm â hwy yn ystod yr arolygiad, argraff dda arnom. Er yr anawsterau a gyflwynwyd gan lawer o'r plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy, maent yn parhau i fod yn ymroddedig ac yn frwdfrydig ac, weithiau, yn groes i'r disgwyl, maent yn llwyddo i gyflawni newid gwirioneddol.

Adborth gan staff TTI

Derbyniwyd y sylwadau canlynol gan aelodau staff o GTI Swydd Rydychen:

- *"Rydym yn mwynhau'r gwaith; dyna pam ein bod yn aros mor hir. Dewis personol yw hwn."*
- *"Mae'r GTI yn darparu gweledigaeth ac arddull."*

GWEITHIO GYDA PHLANT A PHOBL IFANC

Gellir coladu canfyddiadau ail gam y rhaglen arolygu yn hawdd yn erbyn y pum canlyniad ar gyfer plant a phobl ifanc a nodwyd yn y papur gwyrdd *Mae Pob Plentyn yn Bwysig* (2003).

GWNEUD CYFRANIAD CADARNHAOL: ATAL ACHOSION O DROSEDDU AC AILDROSEDDU

Mae'r gwaith hwn yn greiddiol i'r broses arolygu. Fe'n calonogwyd gan y cynnydd a wnaed gan TTI wrth asesu anghenion y plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy. Mae staff TTI yn gwneud defnydd cynyddol o ONSET (offeryn asesu'r BCI) ac offerynnau asesu eraill, i gynllunio ymyriadau gyda phlant a phobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl o droseddu.

Mae amseroldeb cwblhau Asset, yr offeryn asesu a ddatblygwyd gan y BCI ac a ddefnyddir yn gyffredinol gan TTI gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, wedi gwella'n sylweddol ers i'r BCI gynnal Archwiliad Ansawdd Arfer Effeithiol arno, er bod angen i rai TTI roi sylw i'r ansawdd o hyd. Yn yr un modd, mae angen rhoi sylw pellach i gynllunio goruchwyliaeth. Cynhyrchwyd y mwyafrif o gynlluniau goruchwyliaeth cychwynnol a welwyd yn ystod arolygiadau o fewn terfyn amser dderbyniol, ond nid oeddent yn darparu fframwaith wedi'i strwythuro'n glir o waith i'w gynnal, ac ni chawsant eu hadolygu'n ddigon rheolaidd bob tro.

Achos enghreifftiol

Yn GTI Cofentri, dangosodd rheolwr achos ddealltwriaeth dda o faterion arfer effeithiol a chysylltiadau â gweithgareddau rheoli achosion wrth weithio gyda merch ifanc oedd yn destun gorchymyn goruchwyliaeth o chwe mis am drosedd o ymosodiad. Targedodd y rheolwr achos y ffactorau troseddolegaidd a nodwyd drwy Asset. Roedd yr ymyriadau'n cyfateb â'r materion risg ac anghenion ac roeddent yn cynnwys: y rhaglen Sticks & Stones, sesiynau empathi â dioddefwyr, llythyr yn ymddiheuro i'r dioddefwr, gwaith ar feddwl ac ymddygiad, rheoli dicter a chamddefnyddio alcohol. Gwelwyd enghreifftiau o gofnodi ardderchog, gyda dadansoddiad clir o faterion troseddu a chan ganolbwyntio ar y dioddefwr drwy'r adeg. Diddymwyd y gorchymyn oherwydd y gwnaed cynnydd da a dangosodd Asset ostyngiad mewn ffactorau risg. Nid oedd y ferch ifanc wedi aildroseddu a pharhaodd i gynnal cysylltiad gwirfoddol â'r GTI.

Cwblhau Asset a chynllunio goruchwyliaeth

	Cyfartaledd cam un	Cyfartaledd cam dau	Ystod cam dau
Cwblhawyd asesiad cychwynnol yn unol â'r safon genedlaethol – amseroldeb.	80%	84%	71%–97%
Cwblhawyd asesiad cychwynnol yn unol â'r safon genedlaethol – ansawdd digonol.	80%	71%	44%–93%
Mae'r cynllun goruchwyliaeth cychwynnol o ansawdd digonol.	47%	52%	17%–96%
Adolygwyd y cynllun goruchwyliaeth cychwynnol yn unol â'r safon genedlaethol.	61%	57%	33%–88%

Er y gwelwyd rhai gwelliannau cyffredinol rhwng cam un a cham dau, er mai mân welliannau oedd y rhain, rydym yn parhau i fod yn bryderus ynghylch ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant a phobl ifanc y mae risg bosibl y byddant yn achosi niwed i eraill. Mae angen i'r rhan fwyaf o TTI roi llawer mwy o sylw i'r gwaith o asesu a rheoli'r achosion hyn. Ni chaiff asesiad llawn o'r risg o niwed ei gwblhau mewn cyfran uchel o achosion, er y nodwyd ffactorau sbardun hysbys. Ni chyfeirir achosion a ddosbarthwyd fel 'pryder o risg' neu 'ymwybyddiaeth o risg' i reolwr ei arolygu bob tro a, hyd yn oed os gwneir hyn, anaml y caiff y ffeil ei hanodi i gofnodi unrhyw drafodaethau. Mae'r materion hyn yn ymwneud ag atebolrwydd asiantaethau a rhaid ymdrin â hwy er mwyn sicrhau bod y plant a phobl ifanc hyn sy'n anodd i'w trin, ac sydd yn aml wedi cael eu niweidio, yn cael yr help a'r ymyriad sydd ei angen arnynt ac y diogelir y cyhoedd.

Risg o niwed i eraill

	Cyfartaledd cam un	Cyfartaledd cam dau	Ystod cam dau
Cwblhawyd asesiad llawn o risg o niwed ym mhob achos perthnasol.	40%	54%	17%–83%
Cyfeiriwyd achos 'pryder o risg' neu 'ymwybyddiaeth o risg' i reolwr.	61%	71%	0%–100%
Ceir tystiolaeth yn y ffeil achos bod y rheolwr wedi adolygu'r achos.	34%	41%	0%–100%
Mae'r arolygydd yn cytuno	99%	69%	19%–100%

gyda'r dosbarthiad risg o niwed.			

Rydym hefyd yn pryderu am wahaniaethau o ran y cyswllt gyda phlant a phobl ifanc. Mae rhai TTI yn cyflawni lefel uchel o gyswllt, ond nid yw TTI eraill yn cynnig digon o apwyntiadau i gynnal unrhyw fath o ymyriad cyson. Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn methu â chydymffurfio gyda'u gorchymyn, mae'r tebygolrwydd y cymerir camau yn eu herbyn hefyd yn amrywio'n sylweddol rhwng TTI. Mae'n syndod cyn lleied o sylw, o ystyried oedran y plant a'r bobl ifanc y mae TTI yn gweithio gyda hwy, a roddir i bwysigrwydd ymweliadau cartref.

Safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid

	Cyfartaledd cam un	**Cyfartaledd cam dau**	**Ystod cam dau**
Mae amlder yr apwyntiadau a drefnir, yn gyffredinol, yn cydymffurfio â'r safon genedlaethol.	83%	75%	52%–100%
Mae nifer yr apwyntiadau a gedwir, yn gyffredinol, yn cydymffurfio â'r safon genedlaethol.	71%	57%	38%–93%
Mae dyfarniadau ynghylch derbynioldeb/annerbynioldeb absenoldebau yn briodol.	76%	71%	40%–96%
Cymerir camau yn erbyn plant neu bobl ifanc sy'n torri eu gorchymyn yn unol â'r safon genedlaethol.	67%	49%	13%–100%
Cynhelir ymweliadau cartref yn unol â'r safon genedlaethol.	70%	54%	19%–95%

Fodd bynnag, mae lefel y cysylltiad â phlant a phobl ifanc yn gwella. Gwelwyd bod amrywiaeth o ymyriadau'n cael eu defnyddio'n gynyddol, gyda grwpiau o blant a phobl ifanc a chydag unigolion. Mae rhai yn cynnwys sefydliadau partner. Mae'r mwyafrif yn briodol ar gyfer anghenion yr achos, ac mae gweithwyr achos yn gyffredinol yn cysylltu'n dda ag asiantaethau a sefydliadau eraill i atgyfnerthu'r gwaith a wneir gyda'r plentyn neu'r person ifanc ar eu rhan.

Achos enghreifftiol

Roedd y Young Runaways Team yn enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth yn GTI Suffolk. Roedd person ifanc, nad oedd wedi troseddu o gwbl, wedi mynd ar goll o'i gartref ar nifer o achlysuron. Roedd hyn yn cael effaith negyddol ar ei deulu ac, yn benodol, ar ei frodyr a'i chwiorydd. Roedd mam y person ifanc yn teimlo'n

rhwystredig oherwydd anallu'r asiantaethau i roi cymorth i'w mab, felly ceisiodd help gan y Young Runaways Team a chanmolodd waith unigolion a'r gwaith tîm. Gallai'r person ifanc siarad â'r tîm unrhyw bryd, roedd wedi datblygu sgiliau cyfathrebu a theimlai ei deulu y byddai ei ymddygiad wedi dirywio oni bai am waith y GTI.

Gwaith ar rybuddion terfynol



Drwy gymharu canfyddiadau'r arolygiad rhwng cam un a cham dau gwelir gwelliant cyson yn ansawdd y broses o ddarparu rhybudd terfynol.

Y ddalfa



Mae gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n cael eu dedfrydu i garchar yn peri pryder o hyd, yn arbennig mewn perthynas â'r diffyg dilyniant mewn ymyriadau cyn rhyddhau ac ar ôl rhyddhau. Rhoddir sylw penodol i'r materion hyn yn ystod cam tri y rhaglen arolygu.'

BOD YN IACH

Ar 1 Ebrill 2004, daeth cyfrifoldeb y Comisiwn Gofal Iechyd dros arolygiadau i ben yng Nghymru. Cyfrifoldeb Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r cylch gwaith bellach.

Eleni gwelwyd cyfraniad at arolygiadau TTI yn Lloegr gan aelodau cysylltiedig o'r Comisiwn Gofal Iechyd yn ogystal ag un prif arolygydd o'r Comisiwn Gofal Iechyd. Mae'r aelodau cyswllt yn cynnwys paediatregwyr, arbenigwyr iechyd y cyhoedd, meddyg teulu, seicolegwyr, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gofal cymdeithasol, a seiciatryddion gyda diddordeb arbennig mewn CAMHS, camddefnyddio cyffuriau a sylweddau ac ati. Maent wedi cyfrannu ac wedi helpu i gynnal gwrthrychedd mewn proses arolygu lym, sy'n esblygu ac sy'n gynyddol heriol. Bydd rhai o'r aelodau cyswllt hyn yn cyfrannu at y Cydadolygiadau Ardal yn Lloegr.

Mae gan rai aelodau o staff iechyd TTI faich achosion cyffredinol o hyd, er mai baich bach ydyw, ac yn yr achosion hyn maent yn gyfrifol am bob agwedd ar y gwaith o gwblhau Asset. Fel arfer mae gweithwyr sy'n ymwneud ag iechyd, camddefnyddio cyffuriau a sylweddau yn cynorthwyo plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ar lefel haen un i haen dau a, phan fydd gan yr arbenigwr iechyd gymhwyster iechyd meddwl, e.e. nyrs iechyd meddwl cofrestredig, yn aml rhoddir cymorth ar lefel haen tri.

Ceir rhai amrywiadau o ran pwy sy'n cynnal asesiadau iechyd meddwl cychwynnol ar blant a phobl ifanc a oruchwylir gan TTI. Y drefn fwyaf

cyffredin yw bod rheolwr yr achos yn cynnal yr asesiad cychwynnol o anghenion meddyliol a chorfforol plentyn neu berson ifanc a bod yr arbenigwr iechyd yn asesu'r rhai gyda sgôr iechyd meddwl Asset o ddau neu uwch.

Arfer da

Gwasanaethir GTI Cofentri yn dda gan wasanaeth asesu rheolaidd a gynigir gan CAMHS. Cynhelir asesiadau ar y cyd gyda gweithwyr CAMHS ac aelodau o staff GTI bob wythnos yn y ganolfan Siop Un Stop. Gall y gweithiwr CAMHS gysylltu â seiciatrydd i gael cyngor ar achosion ac mae'r cysylltiadau gwaith rhwng yr aelodau o staff yn gadarnhaol.

Ers ein hadroddiad diwethaf, mae llawer o TTI yn dechrau defnyddio offer sgrinio iechyd meddwl y BCI, er bod yn well gan rai ohonynt ddefnyddio eu hoffer eu hunain – fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi cael eu dilysu bob tro. Rhoddwyd hyfforddiant mewn defnyddio'r offer sgrinio iechyd meddwl i rai aelodau o staff y TTI, yn arbennig arbenigwyr iechyd, fel rhan o'u hyfforddiant gorfodol.

Yn GTI Enfield, cynigiwyd prawf sgrinio iechyd rheolaidd i'r holl blant a phobl ifanc ar ôl cwblhau'r Asset cychwynnol. Roedd yn cynnwys profion sgrinio datblygiadol, cofrestru a chyfeiriadau i feddygon teulu a deintyddion, brechiadau a mynediad i gyngor iechyd rhywiol. Mae gan y rhan fwyaf o TTI brotocolau ar gyfer cael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc y nodwyd bod angen help arnynt ar frys, er bod rhai yn cael anawsterau wrth wneud hynny i bobl ifanc 16-18 oed.

Wrth ddarllen ffeiliau gwelwyd yn gyffredinol bod cyfran sylweddol o blant a phobl ifanc wedi'u nodi fel rhai â rhyw fath o broblem iechyd.



Pan gynhelir asesiad rheolaidd o gamddefnyddio sylweddau fel rhan o'r sgrinio cychwynnol gan weithwyr achos TTI, wrth ddarllen ffeiliau achosion yn aml gwelwyd lefelau uchel o gamddefnyddio sylweddau. Mae'r defnydd a wneir o weithwyr arbenigol sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn amrywio rhwng TTI. Mae rhai yn monitro'r broses sgrinio gychwynnol yn rheolaidd, ond dim ond plant a phobl ifanc gyda sgoriau Asset o ddau neu'n uwch y mae rhai yn ymwneud â hwy. Ni chedwir at yr amseroedd targed ar gyfer asesiadau gan CAMHS ac arbenigwyr sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau bob tro.

Yn TTI Havering a GTI Barking a Dagenham, lle'r oedd arbenigwyr iechyd wedi datblygu cysylltiadau gwaith agos gyda CAMHS lleol, fel arfer gallai plant a phobl ifanc a gyfeiriwyd i gael asesiad iechyd meddwl arbenigol fanteisio ar wasanaethau haen tri neu bedwar gan dimau CAMHS. Roedd rhai gweithwyr sy'n ymwneud ag iechyd a chamddefnyddio sylweddau yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a, lle y bo'n briodol, roeddent yn defnyddio ymyriadau amrywiol, yn cynnwys gwaith grŵp. Roedd eraill, er enghraifft TTI Gwlad yr Haf, yn darparu rhaglenni sgrinio iechyd, magu plant, cydberthnasau ac ymddygiad gwybyddol ac ati.

Arfer da

Roedd Prosiect Boost, yn Hull, yn brosiect celfyddydau ac iechyd arloesol a ddarparwyd gan bartneriaeth rhwng y TTI, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol, a'r Gwasanaeth Hybu Iechyd Arbenigol, ac fe'i hariannwyd ar y cyd gan y Gronfa Adfywio Cymdogaethau a'r TTI.

Roedd y prosiect yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau creadigol i wella iechyd a lles ac i'w hatal rhag troseddu. Gweithiodd staff y prosiect yn agos gyda'r TTI i gynllunio rhaglenni gwaith i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.

Ers mis Mawrth 2004, roedd 70 o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan yn y prosiect.

Fel arfer mae gweithwyr arbenigol sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn cynnig cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, ond ni all llawer ohonynt ddarparu gwasanaeth sy'n cynnig triniaeth. Mae llawer o weithwyr arbenigol sy'n ymwneud â chyffuriau yn cael eu gorweithio a dim ond hyd at lefel haen dau y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnig cymorth.

Arfer da

Yn TTI Gwlad yr Haf, cafodd plant a phobl ifanc y cyfle i roi adborth uniongyrchol ar eu profiad o'r rhaglenni a gynigir.

DIOGELU

Dyma faes ble mae'r TTI yn gyffredinol yn gweithio'n dda gyda chydweithwyr mewn adrannau eraill i ddiogelu plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, o ystyried y buddsoddiad a wnaed mewn TTI gan awdurdodau lleol, fel arfer drwy adrannau gwasanaethau cymdeithasol, drwy secondio aelodau o staff a thrwy gyfrannu at waith y bwrdd rheoli, cawsom ein synnu o weld nad oedd llawer o enghreifftiau o gydweithio'n gyffredinol. Dywedwyd wrthym yn aml am achosion a derfynwyd wedi i staff y gwasanaethau cymdeithasol gael gwybod bod y TTI yn gysylltiedig â'r achos. Mewn enghreifftiau o'r fath pwysleisiwyd yn gryf yr angen i'r ddwy asiantaeth gytuno ar drothwyon cyfeirio ar y cyd a'u lledaenu i'r holl staff.

Yn yr un modd, gellid hybu gweithio ar y cyd drwy sefydlu systemau rheolaidd i wirio p'un a yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod pwy yw plentyn neu berson ifanc ar ddechrau unrhyw gysylltiad. Dylid gwneud gwiriadau o'r fath ym mhob achos ond, yn ein profiad ni, ni roddir digon o sylw iddynt yn aml.

Arfer da

Ym Medway, roedd y TTI, y gwasanaethau cymdeithasol a CAMHS, mewn cydweithrediad â Phrosiect Chilston, wedi mabwysiadu ymagwedd ar y cyd i weithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n cam-drin yn rhywiol. Hyfforddwyd aelodau o staff o'r TTI a gweithiwr cymdeithasol i asesu ac i ddarparu rhaglenni sy'n berthnasol i anghenion plant a phobl ifanc. Neilltuwyd un diwrnod yr wythnos ar gyfer gwneud y gwaith hwn.

Wrth archwilio'r achosion a ddarllenwyd yn ystod yr arolygiadau gwelwyd lefelau uchel o angen ymhlith plant a phobl ifanc a oruchwyliwyd gan TTI:

- roedd 13% yn Blant sy'n derbyn Gofal
- roedd 3% ar y gofrestr diogelu plant
- ystyriwyd bod 22% yn debygol o hunan-niweidio
- ystyriwyd bod risg y byddai 19% yn cael eu niweidio gan eraill.

Hefyd, wrth ddarllen y ffeiliau gwelwyd bod TTI yn ymgynghori â'r gwasanaeth plant lleol mewn:

- 90% o'r holl achosion sy'n cynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal
- 31% o'r holl achosion eraill.

Cymerwyd camau mewn 82% o'r achosion pan ystyriwyd bod plentyn neu berson ifanc yn agored i niwed ac, yn ein barn ni, roedd hyn fel arfer yn briodol ar gyfer anghenion yr achos. Fodd bynnag, mae lle i wella ar y perfformiad hwn o hyd. Mae'r ffaith na chymerwyd camau priodol ym mhob achos lle yr ystyriwyd bod risg i blant yn peri pryder.

Achos enghreifftiol yn dangos gwaith da ar y cyd.

Symudwyd un person ifanc oedd yn ymwneud â GTI Islington o'i gartref i mewn i ofal ac ar y dechrau bu ei fentor yn mynd gydag ef i'w gwrs coleg newydd. Yno cyflawnodd achrediad City & Guilds mewn gwaith galwedigaethol a chyflawnodd dystysgrif am fod yn Fyfyriwr y Flwyddyn. Roedd y gŵr ifanc yn dal i gymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant llawn amser. Nid oedd wedi aildroseddu er gwaethaf ei fywyd cythryblus gartref ac roedd wedi manteisio ar gymorth parhaus gan ei fentor, tiwtoriaid a'r adran gwasanaethau cymdeithasol.

Diogelu plant – Ail Adroddiad ar y cyd y Prif Arolygwyr ar Drefniadau i Ddiogelu Plant

Dyma oedd ail adolygiad ar y cyd yr arolygiaeth o fesurau diogelu plant, yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth y dylid cynnal adolygiad o'r fath bob tair blynedd. Fe'i harweiniwyd gan y CSCI, caiff ei gyhoeddi yn 2005/2006, ac mae'n cwmpasu pedair prif thema:

- plant sy'n byw gartref
- plant sy'n byw oddi cartref
- plant a'r system cyfiawnder
- plant sy'n ceisio lloches.

Cyfrannodd y rhaglen arolygu TTI yn bennaf i'r adran ar blant yn y system cyfiawnder, gan roi pwyslais arbennig ar waith TTI yn ystod y cyfnod cyn yr achos llys/y penderfyniad. Gwnaed gwaith maes yn ystod 2004/2005 a nodir y canfyddiadau manwl ar gyfer TTI mewn adroddiad ar wahân.

Mae'r adroddiad hwn, sef *From Arrest to Sentence – The Role of YOTs in the Safeguarding of Children*, yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer y BCI a'r TTI eu hunain ac fe'i cyhoeddir yn 2005/2006. Mae'n cydnabod yr ymrwymiad cynyddol i faterion sy'n ymwneud â diogelu ar ran TTI ac mae'n amlygu'r angen i fonitro trefniadau ar y cyd i ddiogelu plant yn well, gan roi llinellau atebolrwydd cliriach rhwng gwahanol asiantaethau.

Mae hefyd yn pwysleisio'r angen parhaus i roi sylw i'r broses o asesu pa mor agored i niwed y mae pobl.

Bydd y materion hyn yn llywio ein trefniadau arolygu yn y dyfodol.

MWYNHAU A CHYFLAWNI LLES ECONOMAIDD

Dangosodd nifer o'r TTI a arolygwyd gydlyniad cryf yn eu hymagwedd tuag at gynorthwyo plant a phobl ifanc, yn cynnwys: dilyniant wedi'i reoli'n dda o faterion addysg o'r Asset cychwynnol; lleoliadau addas i mewn i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth; a phrosesau manwl ar gyfer olrhain a monitro cynnydd gan y gweithwyr arbenigol. Roedd y gweithwyr hynny a oedd wedi sefydlu cysylltiadau effeithiol gyda darparwyr lleol, fel ysgolion, y gwasanaeth ieuenctid, y coleg lleol a Connexions, yn fwy llwyddiannus wrth ddod o hyd i ddarpariaeth addas a pherthnasol i blant a phobl ifanc. Yn y TTI gorau, sefydlwyd gweithdrefnau cyfeirio da gyda'r AALl a chyda gwasanaethau arbenigol, er enghraifft, seicolegwyr addysgol, ymgynghorwyr personol Connexions a CAMHS. Ar gyfer y lefel hon o gymorth roedd angen i'r gweithiwr arbenigol fuddsoddi amser, cymorth rheoli effeithiol, sianeli cyfathrebu da ac ymwybyddiaeth dda gan holl aelodau o staff y TTI o'r gweithdrefnau a'r prosesau i'w dilyn.

Astudiaeth achos

Parhaodd rhai plant a phobl ifanc i fod allan o'r ysgol am gyfnodau estynedig o amser. Er enghraifft, anfonwyd person ifanc ag anawsterau ymddygiad ac anawsterau dysgu at ei deulu estynedig ym Mangladesh ar ôl cael ei dynnu o'r ysgol ym Mlwyddyn 8. Pan ddaeth ei achos ger bron TTI Tower Hamlets a Dinas Llundain yn ddiweddarach nid oedd unrhyw gofnod diweddar o unrhyw ymyriad addysgol.

Dechreuodd ddysgu ym Mlwyddyn 11 mewn uned y tu allan i'r ysgol, lle gwnaeth gynnydd da. Roedd yn bwriadu sefyll arholiadau TGAU Saesneg a mathemateg a gwneud cais am gwrs coleg, gyda chymorth ymgynghorydd personol Connexions.

Erys dadrithiad gydag addysg yn ffactor troseddolegaidd cryf i lawer o blant a phobl ifanc, gyda thua 71% o'r rhai y mae TTI yn ymwybodol ohonynt wedi eu nodi fel unigolion sy'n cael anawsterau yn yr ysgol. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae ysgolion yn parhau i fod yn gyndyn i ailintegreiddio plant a phobl ifanc sydd wedi bod yn absennol am gyfnod o amser. Mae'r un mor anodd i'w trosglwyddo i ysgolion eraill. Nodir bod oedi gan yr AALl wrth brosesu llefydd ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn ffactor pwysig hefyd a all arwain at ymddygiad 'mewn perygl' neu ymddygiad troseddol rheolaidd pan fydd plant a phobl ifanc wedi bod allan o'r ysgol am gyfnodau annerbyniol o hir.



Mae dod o hyd i leoliadau addas a phriodol yn parhau i gyflwyno her fawr i TTI. Nid yw'r ddarpariaeth statudol o 25 awr o addysg yr wythnos ar gael i lawer o blant a phobl ifanc, ac mae nifer sylweddol ohonynt yn cael llawer llai na hyn. Mewn rhai achosion nid ydynt yn barod i fynychu eu lleoliadau ar ôl bod allan o fyd addysg cyhyd. Darpariaeth amgen sy'n diwallu anghenion dysgu penodol oedd yr opsiwn mwyaf cynhyrchiol a llwyddiannus ond, hyd yn oed wedyn, nid yw'r rhaglenni wedi'u hachredu'n addas bob tro neu nid oes digon ohonynt i fodloni'r galw.

Mae'r sefyllfa hyd yn oed yn waeth i bobl ifanc 16 oed a throsodd, lle nad oes cyfleoedd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a chyrsiau lefel mynediad neu sylfaen mewn coleg ar gael iddynt, neu nad ydynt yn ddigonol neu'n briodol i ddiwallu eu hanghenion penodol. Mae cysylltiadau gyda phartneriaeth Connexions a llwyddiant dilynol wrth ddod o hyd i leoliadau addas ar eu cryfaf pan gaiff ymgynghorwyr personol eu secondio i'r TTI. Mae'r TTI hynny lle nad oes digon o amser ar gael i ymgynghorwyr personol fel arfer yn dangos canlyniadau is ar gyfer pobl ifanc 16 oed a throsodd. Nid yw'n hawdd dod o hyd i ddarpariaeth ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth heb yr amrywiaeth o rwydweithiau a gwybodaeth am ddarpariaeth ar draws ardal, a ddarperir gan Connexions. O'r TTI a arolygwyd, dim ond 52% o'r grŵp oedran ôl-16 a oedd wedi cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y bobl ifanc hynny sy'n destun Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant. Cyflawnwyd y canlyniadau mwyaf effeithiol pan oedd gweithiwr allweddol y TTI, y gweithiwr addysg ac ymgynghorydd personol Connexions yn gweithio'n agos gyda'r lleoliad uned ddiogel. Yn yr achosion hyn, roedd yn fwy tebygol y byddai'r opsiynau ar gyfer y person ifanc ar ôl ei ryddhau yn rhai cadarnhaol.

Arfer da

Roedd TTI Salford wedi cynnal gweithgareddau arloesol ar ffurf peilot i ysgogi plant a phobl ifanc a'u hailgysylltu ag addysg, yn cynnwys gwaith gyda chwmni theatr lleol, a ariannwyd gan y Gronfa Blant. Defnyddiodd y prosiect hwn ddulliau cynhyrchu fideo, ffotograff a rap gyda staff o'r Royal Exchange Theatre a chynorthwywyr addysgu. O ganlyniad i hyn cafodd 75% o'r plant a'r bobl ifanc eu hailintegreiddio i mewn i addysg llawn amser.

DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL

Er y rhoddir mwy o bwyslais ar waith gyda dioddefwyr a chyfiawnder adferol wrth i'r TTI ddatblygu, yn aml, cyfrifoldeb grŵp bach o staff nad oes ganddynt ddigon o adnoddau i gyflawni'r dasg sy'n ofynnol yw hyn o hyd. Mae llawer o TTI yn ceisio mynd i'r afael â'r cyfyng-gyngor hwn drwy flaenoriaethu, naill ai drwy ganolbwyntio ar y dioddefwyr mewn achosion lle rhoddwyd rhybudd terfynol a gorchymyn cyfeirio, neu drwy amrywio'r math o gyswllt, yn dibynnu ar natur y trosedd. Mae'r ail ymagwedd hon fel arfer ar ffurf apwyntiad sefydlog a gynigir gyda gweithiwr a enwir yn yr achosion mwyaf difrifol, ac mewn achosion eraill, drwy wahodd y dioddefwyr eu hunain i gysylltu â'r TTI.

Gellid dadlau bod system wahaniaethol yn caniatáu i'r dioddefwr bennu ei anghenion cymorth ei hun. Fodd bynnag, dengys profiad ardaloedd prawf dros nifer o flynyddoedd bod ymatebion unigol i droseddau yn amrywio'n sylweddol ac nad yw natur y trosedd neu'r penderfyniad yn ddangosydd da o'i effaith ar y dioddefwr. Dangoswyd hefyd fod dioddefwyr yn llai tebygol, waeth beth fo'u teimladau am y trosedd, o dderbyn unrhyw gynnig o gysylltiad oni chynigir apwyntiad pendant iddynt. Er ein bod yn cydymdeimlo ag angen TTI i reoli adnoddau cyfyngedig, byddem yn annog pob un ohonynt i gynnig apwyntiad sefydlog i ddioddefwyr fel rhan o'u cysylltiad cychwynnol. Fel arall, ni fydd pob dioddefwr yn derbyn y gwasanaeth y mae ganddynt hawl i'w gael gan TTI.

Mae llawer o TTI yn cael eu rhwystro wrth geisio cysylltu â dioddefwyr o hyd oherwydd diffyg gwybodaeth amserol a pherthnasol. Mae rhai wedi datrys y mater hwn drwy gytuno â'r heddlu lleol y gall heddwas y TTI gael mynediad i wybodaeth am ddioddefwyr drwy Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a leolir yn swyddfeydd y TTI. Mae'n rhaid i eraill aros nes bydd y wybodaeth ar gael iddynt, ac yn aml mae hyn yn rhy hwyr i ganiatáu iddynt gwrdd â'r terfynau amser ar gyfer cysylltiad, a sefydlwyd fel arfer da yn ôl y safon genedlaethol. O ganlyniad, fel y gwelwyd wrth ddarllen y ffeiliau achosion, llai na hanner y dioddefwyr y mae'r TTI yn cysylltu â hwy.



Mae rhai TTI wedi sefydlu prosiectau sy'n targedu dioddefwyr troseddau ifanc. Mae llwyddiant y prosiectau hyn yn cael ei werthuso o hyd, ond maent yn helpu i egluro effaith troseddau ar blant a phobl ifanc, a'u profiad o fwlio ac aflonyddwch. Mae angen defnyddio'r canfyddiadau o'r prosiectau hyn i lywio'r drafodaeth barhaus ar y gwaith o ddatblygu gwasanaethau plant.

Arfer da

Roedd y dulliau arloesol a ddefnyddiwyd gan weithiwr yn GTI Islington i gysylltu â dioddefwyr ifanc yn glodwiw. Roedd y rhain yn cynnwys mynd i'r sinema, mynd i'r siop gwerthu byrgyrs lleol ac i chwarae pêl-droed. Bu adegau pan ddefnyddiodd y plant a phobl ifanc eu cydberthynas gadarnhaol â'r gweithiwr i ymddiried ynddo ynghylch agweddau eraill ar eu bywydau, yn cynnwys anawsterau yn yr ysgol ac achosion o drais yn y cartref.

Mae lefel y camau unioni uniongyrchol yn isel o hyd, er bod rhai TTI yn dechrau defnyddio cynadleddau adferol. Mae angen lefel uchel o sgil a hyder ar ran y gweithiwr i ymgymryd â'r gwaith hwn, ac efallai nad yw'n syndod y bu'r datblygiad yn araf. Lle y bu'n llwyddiannus, mae'n rhoi cyfle i'r dioddefwr roi terfyn ar y mater, ac i'r plentyn neu'r person ifanc sydd wedi cyflawni'r drosedd gael ei adsefydlu a derbyn yr hyn a wnaeth.

Astudiaeth achos

Dywedodd un person ifanc o Salford, a oedd wedi cymryd rhan mewn cynhadledd cyfiawnder adferol, wrth yr arolygydd a oedd yn ei gyfweld: *"Roeddwn yn eistedd mewn ystafell gyda'r dioddefwr ac roeddwn yn teimlo'n wael. Gwnaeth i mi feddwl, oherwydd ar y pryd dydych chi ddim yn gweld y dioddefwr a sut mae'n effeithio arnynt. Ar y pryd rydych yn chwerthin, ond ar ôl cwrdd â hwy sylweddolais faint yr*

oeddwn wedi eu brifo".

Gwneir defnydd cynyddol o gamau unioni anuniongyrchol, ac mae nifer ac amrywiaeth gynyddol o brosiectau adferol ar gael bellach. Ar yr amod na chaiff y prosiectau hyn eu defnyddio fel dewis amgen hawdd i gynnwys y dioddefwr yn uniongyrchol, maent yn gwneud cyfraniad defnyddiol i waith gyda phlant a phobl ifanc. Maent fwyaf llwyddiannus pan fydd y plentyn neu'r person ifanc yn cael help i weld cysylltiad rhwng eu trosedd a'r gwaith y gofynnir iddynt ei wneud, a heb hyn gallai'r prosiectau lithro i fath o waith di-dâl neu fersiwn o gosb gymunedol i bobl ifanc. Nid yw'n hawdd gwneud cysylltiad o'r fath o hyd. Nid yw llawer o'r plant a phobl ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan TTI yn ddigon aeddfed neu nid oes ganddynt y gallu cysyniadol i ddeall y syniad o gamau unioni anuniongyrchol yn llawn heb fewnbwn sylweddol ar ran y gweithiwr.

Fodd bynnag, rydym yn gweld llawer o brosiectau diddorol, a rhai ohonynt yn cynnwys enghreifftiau o ddioddefwyr corfforaethol yn gweithio gyda'r TTI, yn aml mewn achosion o fandaliaeth neu ddwyn o siopau. Yn anffodus, ni chaiff llawer o'r prosiectau hyn eu monitro neu eu gwerthuso'n allanol, a bydd angen llenwi'r bwlch hwn er mwyn i'r TTI ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach.

Mae'n anodd asesu lefel boddhad ymysg dioddefwyr gyda gwaith y TTI. Mae'r rhan fwyaf o'r dioddefwyr a welwyd yn ystod yr arolygiadau yn ymddangos yn fodlon â'r gwaith a wnaed. Roedd sgoriau boddhad ymysg dioddefwyr, un o fesurau perfformiad blynyddol y TTI, yr un mor uchel, ond gwyddir mewn rhai achosion eu bod yn seiliedig ar niferoedd isel. Felly, o'r wybodaeth sydd ar gael, mae'n bosibl dweud bod dioddefwyr, ar y cyfan, yn fodlon â'r cysylltiad sydd ganddynt â'r TTI, ond cyfran gymharol fach o'r holl ddioddefwyr a gynrychiolir ganddynt.

Astudiaeth achos

Wrth arolygu GTI Suffolk, cyfarfûm â dau ddioddefwr ifanc a'u rhieni. Roeddent yn gadarnhaol iawn ynghylch y GTI, gan nodi bod y staff yn gymwynasgar ac yn gefnogol iawn. Disgrifiodd un o'r dioddefwyr ifanc (14 oed) eu profiad o fynychu cyfarfod y panel gorchymyn cyfeirio a sut yr oeddent yn teimlo am y broses wedyn:

"Roeddwn yn teimlo'n ofnus ynghylch mynychu cyfarfod y panel. Fy newis i oedd mynd, ond ar adegau, roeddwn yn amheus. Roedd fy mam yn awyddus iawn i mi fynd, a chefais lawer o ymweliadau cartref a galwadau ffôn gan staff y GTI i'm helpu i baratoi ar gyfer y panel. Gwrandawodd y panel arnaf a'r peth gorau oedd i mi newid y prosiect camau unioni cymunedol y byddai'r troseddwr yn ei fynychu. Roedd hyn yn bwysig iawn a'r peth gorau oedd i mi gael lleisio fy marn.

Rwy'n teimlo'n llawer gwell am bethau erbyn hyn, mae gennyf fentor gwych, gallaf siarad ag ef am bethau na allaf siarad gydag unrhyw un arall amdanynt."

Nododd rhieni'r dioddefwr fod aelodau'r panel yn dangos llawer o ddiddordeb a'u bod yn gwrando ar eu safbwyntiau hefyd. Nododd y rhieni bod y GTI a'r Uned Dioddefwyr yn

parhau i'w cynorthwyo.

CASGLIAD

Yr argraff gyffredinol sydd gennym o TTI ar ôl cyrraedd y pwynt hwn o'r rhaglen arolygu yw bod sefydliadau yn atgyfnerthu eu sefyllfa yn hierarchaeth yr awdurdod lleol ac yn dod yn gynyddol effeithiol wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu. Mae awdurdodau'n amrywio o hyd o ran lefel yr arian a ddyrennir i TTI, sydd yn anochel yn effeithio'n andwyol ar eu gallu i gyflawni yn unol â dangosyddion perfformiad a mesurau'r BCI. Bu trefniadau partneriaeth arloesol yn ganolog i'r gwaith o sicrhau darpariaeth o safon wedi'i monitro'n dda ochr yn ochr ag ymagweddau cost effeithiol tuag at ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.

Ymddengys bod y mwyafrif o blant a phobl ifanc yn ymatal rhag troseddu tra byddant mewn cysylltiad â'r TTI. Mae'r rhan fwyaf yn cydymffurfio â thelerau eu gorchymyn. Ond, mae angen rhoi mwy o sylw i werthuso effeithiolrwydd rhaglenni, o ran eu heffaith ar achosion o droseddu ac wrth wella amgylchiadau cyffredinol i blant a phobl ifanc.

Er bod rhai canlyniadau cadarnhaol yn dechrau cael eu gweld mewn perthynas â gwella iechyd a lles plant a phobl ifanc, mae lle i wella o hyd. Nid oes llawer o GTTI wedi archwilio eu darpariaeth o wasanaethau iechyd ac iechyd meddwl yn benodol. Lle y ceir gwasanaeth iechyd arbenigol, dylid gallu rhoi system archwilio a gwerthuso strwythuredig ar waith.

Gwnaed cynnydd arbennig o dda o ran lleoli pobl ifanc o oedran gadael yr ysgol mewn darpariaeth addysg amgen. Mae hyn fwyaf effeithiol pan roddir blaenoriaeth i weithio mewn partneriaeth ar draws yr ardal a phan sicrheir bod digon o adnoddau ar gael i'r TTI i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael rhywfaint o'u hawliad addysg, os nad eu hawliad addysg i gyd. Gwnaed y cynnydd lleiaf yn y TTI hynny lle nad oes digon o ddarpariaeth amgen a lle mae'r systemau sydd ar waith o fewn yr AALl yn rhy araf wrth ddod o hyd i leoliadau ar gyfer disgyblion wedi'u gwahardd. Mae diffyg darpariaeth addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth i'r bobl ifanc hynny sy'n 16 oed neu drosodd yn parhau i fod yn broblem fawr i TTI. Mae angen i asiantaethau allanol fel Connexions, colegau lleol, darparwyr hyfforddiant a'r Cyngor Dysgu a Sgiliau lleol fod yn fwy gweithgar yn hyn o beth.

Yn amlwg, fel y dengys ein harolygiadau, mae angen gwneud mwy, yn enwedig mewn rhai TTI, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt mewn sefyllfa dda i barhau â'u rôl mewn cysylltiad â diogelwch cymunedol a gwasanaethau plant.

GWEITHIO GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YNG NGHYMRU

Er bod y TTI yng Nghymru wedi'u ffurfio mewn ffordd debyg iawn i'r rhai yn Lloegr, mae'r fframwaith a ddilynir ar gyfer eu gwaith yn wahanol iawn, o ran eu llywodraethedd, sut y'u hariennir a'u perthynas gyda sefydliadau partner.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfrifoldeb dros holl wasanaethau llywodraeth leol, fel gofal cymdeithasol ac addysg, a thros y gwasanaeth iechyd. Er nad yw'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol wedi'u datganoli, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Cymunedau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n bennaf gyfrifol dros faterion cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Mae *Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan* (2004) yn ymrwymo Llywodraeth Cynulliad Cymru, y BCI a phob asiantaeth leol berthnasol arall i gydweithio i atal troseddu ac ailroseddu ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Ymestyn Hawliau yw prif bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed. Mae'r ddogfen hon yn nodi deg o hawliadau ar gyfer plant a phobl ifanc. Daw'r hawliadau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac maent yn cynnwys hawl pob plentyn neu berson ifanc i gael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ac i gymryd rhan effeithiol ym mywyd eu cymunedau. Mae Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yn wasanaethau sydd, ym marn Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cynorthwyo plant a phobl ifanc ac yn eu galluogi i gael yr hawliadau. Dehonglir addysg yn ei ystyr ehangaf ac yn aml bydd darparwyr yn cynnig gwasanaethau sy'n helpu plant a phobl ifanc i gael hawliadau eraill.

Partneriaethau Pobl Ifanc (PPI) yw'r system a ddefnyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu ei pholisi ar gyfer plant a phobl ifanc. Darperir ar gyfer plant o dan 11 oed o fewn y Partneriaethau Plant. Mae'r ddwy bartneriaeth hon yn seiliedig ar ardaloedd awdurdodau lleol a phrif weithredwr yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol amdanynt. Cydlynir y broses gynllunio gyffredinol ar gyfer y partneriaethau hyn gan y Bartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc.

O dan ddeddfwriaeth Deddf Dysgu a Sgiliau (2000), mae TTI yng Nghymru yn aelodau statudol o PPI. Drwy aelodaeth weithredol, gall rheolwyr TTI gyfrannu at y gwaith cyffredinol o gynllunio gwasanaethau cymorth ieuenctid i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar y deg hawliad. Gall TTI hefyd drefnu amrywiaeth o wasanaethau pwysig i blant a phobl ifanc ar draws ardal awdurdod lleol drwy'r PPI.

NATUR WLEDIG ARDALOEDD

Yn 1996, o ganlyniad i ad-drefnu llywodraeth leol, crëwyd 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru. Er eu bod yn fach o ran poblogaeth, mae gan lawer o'r awdurdodau broblemau a heriau ychwanegol o ganlyniad i ddaearyddiaeth ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus. Oherwydd dirywiad diwydiant trwm, gwelwyd newid sylweddol yn natur cymunedau trefol a chymunedau'r cymoedd, sy'n effeithio ar batrymau cyflogaeth, yn ogystal ag ar argaeledd gwasanaethau. Bu'r effaith ar blant a phobl ifanc, yn ogystal ag ar oedolion, yn sylweddol o ran trafnidiaeth,

gweithgareddau hamdden, cyfleoedd addysg a hyfforddiant amgen, profiad gwaith ystyrlon, gwaith ynddo'i hun a mynediad i wasanaethau yn Gymraeg.

Enghraifft o waith adferol mewn ardal wledig

Roedd person ifanc wedi torri i mewn i ysgol leol ac wedi creu difrod sylweddol yn yr adeilad. Roedd yr ysgol mewn rhan gymharol wledig ac anghysbell o'r ardal ac roedd pobl yn yr ardal leol yn gyffredinol yn ymwybodol o bwy a achosodd y difrod hwn. Gallai hyn fod wedi golygu bod y person ifanc yn cael ei 'labelu' yn y gymuned ac yn cael ei alltudio. Cyfarfu'r gweithiwr cyswllt â dioddefwyr a'r gweithiwr cyfiawnder adferol â Phennaeth yr ysgol i gynllunio gwaith adferol priodol o fewn yr ysgol. Galluogodd hyn y person ifanc i wneud iawn am y difrod a wnaed ac, fel y dywedodd Pennaeth yr ysgol: *"i ailsefydlu cydbwysedd moesol i'r person ifanc fel y gall fyw yn y gymuned hon".* Cwblhawyd y gwaith i safon dda o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno.

CANFYDDIADAU'R AROLYGIADAU

Rydym bellach wedi cwblhau pump arolygiad yng Nghymru ers mis Medi 2003, er mai dim ond un adroddiad a gyhoeddwyd yn ystod 2004-2005 ar yr arolygiad o TTI Castell-nedd Port Talbot a gynhaliwyd ar ddiwedd cam un. Fodd bynnag, cynhaliwyd gwaith maes mewn dau TTI arall – Merthyr Tudful a Wrecsam. Yn ogystal, darparodd arolygiadau Estyn yn 2004/2005, o dri PPI yn Sir Gaerfyrddin, Tor-faen a Sir Fynwy, ac astudiaeth a gynhaliwyd o addysg a hyfforddiant plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid, dystiolaeth bwysig ar safon yr addysg a'r hyfforddiant a'r gwasanaethau cymorth i blant a phobl ifanc a gynorthwyir gan y TTI.

Bu maint cymharol fach llawer o'r TTI yng Nghymru yn un o'r ffactorau allweddol o ran cydweithio. Bu Rheolwyr TTI Cymru yn cynorthwyo yn y gwaith o ddrafftio *Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan* ac maent bellach yn cymryd rhan yn y gwaith o'i gweithredu. Buont hefyd yn helpu i ddenu arian ychwanegol i Gonsortiwm Timau Troseddau Ieuenctid De Cymru ar gyfer cynnal adolygiad arfer gorau.

Fe'n calonogwyd gan lawer o'r gwaith a welwyd yng Nghymru, sy'n cynnwys llawer o enghreifftiau o arfer da ac arloesol. Er na fyddai'n ddefnyddiol nac yn briodol llunio unrhyw gasgliadau pellach o ystyried mai dim ond tri TTI a arolygwyd hyd yma, mae rhai themâu allweddol yn dechrau dod i'r amlwg o'n profiad o arolygu yng Nghymru.

Enghraifft o TTI yn gweithio gyda chymuned leol

Yn TTI Merthyr Tudful, crëwyd argraff arnom gan waith y staff yn asesu plant a phobl ifanc ac yn paratoi ymyriadau priodol, a ddarparwyd yn unigol, yn aml drwy ymagwedd amlddisgyblaethol. Roedd llawer o aelodau o staff y TTI yn lleol ac roedd ganddynt wybodaeth hynod am y plant a'r bobl ifanc unigol a gyfeiriwyd atynt ac am eu cymuned a'r rhwydweithiau ynddi. Fodd bynnag, beth bynnag fo'u cefndir, roedd pob un ohonynt yn meddu ar broffesiynoldeb ac ymrwymiad a oedd nid yn unig yn effeithiol, ond a oedd hefyd yn cael ei werthfawrogi gan y plant a'r bobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr, asiantaethau eraill ac yn enwedig y llysoedd.

Arfer da

Yn TTI Merthyr Tudful, roedd y Pennaeth Dysgu Gydol Oes yn aelod o Grŵp Rheoli'r TTI a bu'n cynorthwyo'r TTI drwy roi mynediad am ddim i holl adeiladau'r gwasanaeth ieuenctid a'r bws mini. Roedd hyn hefyd yn golygu y gallai gweithwyr y TTI fanteisio ar becynnau hyfforddi i ategu eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Hefyd roedd ganddynt gysylltiad â Swyddog Gwobrau Dug Caeredin ac arbenigedd y 22 o weithwyr ieuenctid yr awdurdod.

Arfer da

Gwefan oedd SPY DA WEB wedi'i lleoli yn GTI Wrecsam, a noddwyd gan nifer o bartneriaid. Cyflwynodd blant a phobl ifanc i waith y GTI, yn ogystal â'r we a materion sy'n gysylltiedig â TG. Roedd y safle'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am fathau o orchmynion a materion cyfiawnder troseddol ehangach eraill. Roedd y system yn cael ei gwerthuso cyn ehangu ei defnydd.

GOFAL CYMDEITHASOL

Mae awdurdodau unedol yng Nghymru hefyd yn defnyddio lleoliadau arbenigol y tu allan i'r sir i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl ac i'r rhai sydd wedi troseddu. Arweiniodd hyn at bwysau sylweddol ar y gyllideb a chais am fwy o weithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau.

Mae gan Gymru Raglen Rhoi Plant yn Gyntaf sy'n caniatáu i awdurdodau lleol wneud cais am arian bob blwyddyn er mwyn gwella eu gwasanaethau i blant a theuluoedd. Rheolir hyn hefyd gan feini prawf llym ar gyfer ceisiadau ac atebolrwydd. Mae themâu yn newid ond gallant ddylanwadu ar ddarpariaeth ar gyfer magu plant, addysg a Phlant sy'n Derbyn Gofal.

Llwyddodd Consortiwm Tîm Troseddau Ieuenctid De Cymru i sicrhau arian gan y BCI i ddatblygu'r Gwasanaeth Maethu Pobl Ifanc ar Remand, Gwasanaeth Taith i Bobl Ifanc sy'n cael eu Cam-drin ac ISSP.

Arfer da

Ym Merthyr Tudful, sicrhaodd cyfranogiad Ymwelydd Iechyd, Swyddog Lles Addysg a Swyddog Camddefnyddio Sylweddau y TTI bod gwybodaeth gywir ar gael i ddiogelu a llywio cynlluniau ymyrraeth unigol plentyn neu berson ifanc. Roedd hefyd yn glir bod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda rheolwyr achos yn unigol ac fel tîm ac roedd hyn yn amlwg wrth ddarllen y ffeiliau.

CYFLEUSTERAU CARCHAROL YNG NGHYMRU

Ers ei sefydlu, mae Rheolwyr TTI Cymru wedi tynnu sylw at y diffyg cyfleusterau carcharol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Nodwyd y diffyg hwn yn *Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan* gan arwain at ddarparu uned gyda lle i 30 yng Ngharchar EM y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr a chynlluniau ar gyfer sefydliad newydd i droseddwyr ifanc (SDI) yng Nghastell-nedd, De Cymru.

Gwnaed ymdrechion parhaus gan Reolwyr TTI Cymru i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn yr ystâd ddiogel yn cael eu lleoli yng Nghymru neu mor agos i'w cartref â phosibl. Caiff Uned Ddiogel Hillside, yr unig gyfleuster diogel yng Nghymru, a weithredir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, ei hysbysu o bob lleoliad diogel gan awdurdodau lleol. Lle y bo'n bosibl, rhoddir blaenoriaeth i leoliadau priodol gael eu symud i Hillside. Mae'r arolygiad wedi'i lywio gan yr egwyddor a nodwyd yn *Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan* bod: 'rhaid rhoi'r un hawliau i blant a phobl ifanc sy'n cael eu hanfon i gyfleusterau carcharol yn Lloegr â'u cymheiriaid yn Lloegr ac â phlant a phobl ifanc eraill yng Nghymru.'

Enghraifft o TTI yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y ddalfa

Roedd TTI Castell-nedd Port Talbot wedi llunio offeryn asesu i blant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i garchar, er mwyn asesu unrhyw risg a gyflwynwyd gan y plentyn neu'r person ifanc, naill ai iddynt eu hunain neu i eraill. Yna cyflwynwyd yr asesiad i'r hebryngwyr diogel, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r risgiau, ac yna fe'i trosglwyddwyd i staff yr SDI/uned ddiogel pan fyddent wedi cyrraedd y dderbynfa. Byddai'r TTI hefyd yn treulio amser yn paratoi gyda'r plentyn neu'r person ifanc a'u teulu os disgwyliwyd cael dedfryd o garchar.

IECHYD

Fel yn Lloegr, roedd cyfran sylweddol o'r achosion a archwiliwyd fel rhan o'r broses arolygu yn ymwneud â phlant a phobl ifanc a oedd yn cael problemau gyda'u hiechyd, boed hynny'n gorfforol, yn emosiynol neu'n feddyliol. Amlygodd pob un o'r TTI a arolygwyd bryderon ynghylch argaeledd CAMHS a phroblemau yn y gwasanaeth trosiannol ar gyfer pobl ifanc 16 oed a throsodd.

Tynnwyd sylw Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru at y materion hyn a byddant yn gweithio gyda'r rhaglen arolygu yn y dyfodol.

Arfer da

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, roedd gweithiwr iechyd y TTI, gweithwyr cyffuriau a'r heddlu wedi datblygu cynllun cyfeirio plant a phobl ifanc ar ôl arestio mewn cydweithrediad â rhanbarth lleol yr heddlu. Byddai unrhyw blentyn neu berson ifanc a arestiwyd ac a roddwyd yn Nalfa Castell-nedd yn cael cynnig i gael eu cyfeirio i'r cynllun pe credwyd eu bod yn camddefnyddio cyffuriau neu alcohol. Roedd y cynllun yn cynnig gwasanaeth camddefnyddio sylweddau cyfrinachol i bob plentyn a pherson ifanc a'u rhieni/gofalwyr.

ADDYSG

Gwyddys bod addysg a hyfforddiant yn ffactorau allweddol wrth ddiogelu plant a phobl ifanc rhag troseddau. Mae gweithwyr addysg yn y TTI yn dechrau cysylltu'n dda â darparwyr addysg a gweithredu fel hyrwyddwyr ar ran y plant a'r bobl ifanc y maent yn eu goruchwylio. Fodd bynnag, nid yw'r gweithwyr hyn bob tro yn cael digon o ddylanwad gyda darparwyr addysg ac nid yw'r TTI, na'r AALl ac ysgolion yn gwneud digon i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru le mewn ysgol neu drefniant amgen arall. Anaml y caiff eu cynnydd addysgol ei gofnodi, ac ni cheir cysylltiad rhwng ymyriadau a chyflawniadau. Felly mae'n anodd asesu sut mae gwaith TTI yn effeithio ar gyflawniadau addysgol plant a phobl ifanc. Nid yw TTI yn gwneud digon o ddefnydd o asesiadau ysgolion o alluoedd addysgol plant a phobl ifanc neu eu hanghenion o ran sgiliau allweddol neu sylfaenol. Ni chaiff targedau addysgol eu nodi'n ddigon aml, ac anaml y caiff cyflawniadau neu gynnydd eu cofnodi mewn asesiadau dilynol neu, pan gânt eu pennu, nid ydynt yn ddigon penodol neu fesuradwy bob tro. Fodd bynnag, mae llawer o TTI a'u darparwyr partner yn dechrau datblygu dulliau defnyddiol o gofnodi ac achredu cyflawniadau plant a phobl ifanc mewn meysydd sy'n gallu bod yn rhwystr i ddysgu fel cymhelliant, ymddygiad a hunan-barch, ac yn eu gweithgareddau camau unioni a'u gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gymuned.

Mae llawer o blant a phobl ifanc yng Nghymru allan o'r ysgol am gyfnodau annerbyniol o amser ar ôl iddynt droseddu. Yn rhy aml caiff plant a phobl ifanc sydd wedi cael dedfryd o garchar eu tynnu oddi ar gofrestrau ysgolion, a phan fyddant yn dychwelyd adref cânt anhawster wrth gael lle mewn ysgol newydd. Nid yw pobl ifanc yng Nghymru sydd wedi cael Gorchmynion Cadw a Hyfforddiant i'w bwrw yn Lloegr yn cael digon o gymorth gan Gyrfa Cymru tra byddant yn y ddalfa, ac ni chaiff gwybodaeth gan Connexions ei throsglwyddo'n effeithiol i'w gwasanaeth Gyrfa Cymru gartref i'w helpu i sicrhau lleoliadau addysg neu hyfforddiant addas. Anaml y bydd y plant a'r bobl ifanc hynny o oedran ysgol statudol, sy'n cael mynediad i raglenni addysg, yn cael eu hawliad o 25 awr, ac yn aml mae'r ddarpariaeth fwy ar ffurf cymorth addysgol a gweithgareddau cymelliannol yn hytrach na'u hawliad i'r cwricwlwm cenedlaethol ac i ddysgu pwnc, sgil neu i ennill cymhwyster a fydd yn ddefnyddiol iddynt yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Mae gan blant a phobl ifanc siawns gwell o lwyddo yn eu haddysg pan fydd cydberthynas dda rhwng gweithiwr addysg mewn TTI a'r AALl,

ysgolion, colegau ac asiantaethau eraill i sicrhau eu bod yn cael addysg a hyfforddiant sy'n addas ar gyfer eu hanghenion unigol. Yn gyffredinol, nid yw TTI ac AALl yn cydweithio'n ddigon agos i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hawliad o 25 awr o addysg, neu i sicrhau eu bod yn cael lefelau priodol o gymorth i gynnal eu diddordeb yn eu haddysg. Fodd bynnag, pan fydd TTI a'r AALl yn cydweithio'n dda, caiff anghenion plant a phobl ifanc eu hasesu, a'u hymgorffori i becynnau unigol i ddiwallu'r anghenion hynny. Yn yr achosion hyn, rhoddir mynediad i blant a phobl ifanc i amrywiaeth eang o weithgareddau cwricwlwm hyblyg priodol, a gynhelir yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol.

Mae sawl TTI yn datblygu prosiectau arloesol ac yn cyflwyno heriau addysgol drwy bartneriaeth gydag asiantaethau statudol a gwirfoddol eraill, yn cynnwys Gwasanaeth Ieuenctid yr awdurdod lleol. Mae Cynllun Gwobrau Dug Caeredin yn gwneud cyfraniad da tuag at ddatblygiad plant a phobl ifanc, yn enwedig yn ystod eu hamser hamdden. Fodd bynnag, nid oes digon o gysylltiadau i helpu plant a phobl ifanc i symud o weithgareddau'r cynllun a ddarperir gan y TTI i Gynllun Gwobrau Dug Caeredin neu weithgaredd achrededig arall, unwaith y byddant wedi gadael cymorth y TTI.

Arfer da

Cyfarfu AALl Castell-nedd Port Talbot ar lefel strategol gyda'r TTI bob chwe wythnos, i adolygu unrhyw rwystrau yn y system addysg a oedd yn atal plentyn neu berson ifanc o dan oruchwyliaeth y TTI rhag manteisio ar addysg lawn fel sy'n briodol. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cysylltu â'r cyfarfodydd Anghenion Addysgol Arbennig/Cynnwys Disgyblion wythnosol, lle y rhannwyd gwybodaeth yn yr un modd. Roedd plant a phobl ifanc yn aros ar 'agenda' y cyfarfod hwn hyd nes i'r materion gael eu datrys.

Arfer da

Roedd GTI Wrecsam wedi trefnu cytundeb i leoli ymgynghorydd personol y Porth Ieuenctid yn y GTI am un prynhawn bob wythnos. Sicrhaodd hyn bod cyngor gyrfaoedd yn hygyrch. Gallai'r ymgynghorydd ganfod beth oedd gan y bobl ifanc ddiddordeb ynddo, a threfnu profiad gwaith, coleg neu leoliad hyfforddiant perthnasol. Gallai'r bobl ifanc a gyfeiriwyd at y Porth Ieuenctid fanteisio ar gyfranogiad hirdymor gyda gwasanaethau cymorth.

DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg (1993), mae'n orfodol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru gael Cynllun Iaith Gymraeg a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Adolygir y cynlluniau hyn bob tair blynedd.

Roedd pob TTI a arolygwyd yn gweithredu o dan gynllun cymeradwy eu hawdurdod lleol. Er bod pob un ohonynt yn cydnabod pwysigrwydd hybu'r iaith Gymraeg, roeddem yn teimlo y gallai timau fod wedi bod yn fwy rhagweithiol yn ei defnyddio. Ni chafodd digon o'r rhai sy'n dibynnu ar y

TTI am gymorth y dewis o gael gwasanaethau TTI drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Nid oes digon o ddarpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog ar gael i blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr yn y system cyfiawnder ieuenctid. Anaml y caiff iaith y plentyn neu'r person ifanc ei chofnodi yn Asset, er enghraifft, ac nid yw'n ymddangos bod rhai wedi cael y dewis o siarad Cymraeg pan mai Cymraeg yw eu mamiaith. Credwn y gellid gwneud defnydd gwell o staff sy'n siarad Cymraeg yn hyn o beth.

Y RHAGLEN AROLYGU YNG NGHYMRU YN Y DYFODOL

Mae cam tri yr arolygiad yng Nghymru yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'n cydarolygiaethau, Estyn ac AGC Cymru, i sicrhau'r un cysylltiadau ac ymagwedd gyson â'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni yn Lloegr drwy weithredu'r Cydadolygiadau Ardal. Felly mae ein meini prawf arolygu yn cael eu croesgyfeirio â rhai Estyn ac AGC Cymru a chaiff arolygiadau eu trefnu o fewn yr un amserlen, pryd bynnag y bo'n bosibl, er mwyn gallu cyfnewid data a chymharu canfyddiadau. Fodd bynnag, bydd fformat yr arolygiadau yn parhau i fod yn debyg i'r fformat yng ngham un a dau, gydag wythnos gyntaf y gwaith maes yn canolbwyntio ar ddarllen ffeiliau a'r ail yn canolbwyntio ar gyfarfodydd gyda'r prif weithredwr, uwch reolwyr, Rheolwr a staff y TTI, a sefydliadau partner perthnasol.

DADANSODDIAD AMRYWIAETH AROLYGIAETH PRAWF EM

Roedd y 15 TTI a arolygwyd yn ystod cam un yn cwmpasu rhannau gwahanol o'r wlad ac fe'u cynhaliwyd mewn timau gwledig a threfol o fewn ardaloedd awdurdod unigol ac unedol. Yn ystod yr arolygiadau hyn, ystyriwyd amrywiaeth o waith gyda phlant a phobl ifanc ac, yn benodol, y ffordd y darparwyd gwasanaethau i'r rhai o gefndiroedd ethnig amrywiol.

CANFYDDIADAU'R AROLYGIADAU

Archwiliwyd ffeiliau achos 1,146 o blant a phobl ifanc, yr oedd 197 ohonynt o grwpiau cefndir du neu leiafrifoedd ethnig. Nodwyd nifer o feysydd allweddol lle yr oedd ansawdd a safon y gwasanaethau a ddarparwyd yn amrywio'n sylweddol rhwng plant a phobl ifanc o gefndir du neu leiafrifoedd ethnig a'r rhai o gefndir gwyn.

Er enghraifft, roedd llai o blant a phobl ifanc o gefndir du neu leiafrifoedd ethnig a'u rhieni/gofalwyr, yn cymryd rhan yn y gwaith o baratoi a chwblhau asesiadau cychwynnol na phlant a phobl ifanc gwyn. Adlewyrchwyd y gwahaniaethau hyn yn safon cynlluniau dilynol ac arweiniodd hyn at ostyngiad yn nifer yr ymyriadau priodol i atal plant a phobl ifanc rhag aildroseddu. Gwelwyd nad oedd anghenion unigol ynghylch hil a diwylliant yn cael eu diwallu'n llawn o hyd, a bod y gwaith cychwynnol o gynllunio goruchwyliaeth o safon is, gyda dim ond 56% yn bodloni gofynion y safon genedlaethol mewn achosion plant a phobl ifanc o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig, o gymharu â 68% ar gyfer plant a phobl ifanc gwyn. Roedd contractau ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd yn destun gorchmynion cyfeirio, a allai bara am dri i 12 mis, hefyd yn llai tebygol o gael eu darparu'n briodol. Yn yr un modd, cynhaliwyd ymweliadau cartref, a ddylai ffurfio rhan o'r gwaith o oruchwylio plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, mewn 61% o achosion oedd yn cynnwys plant a phobl ifanc du neu leiafrifoedd ethnig, ond mewn 73% o achosion oedd yn cynnwys plant a phobl ifanc gwyn.



Roedd amseroldeb a safon yr asesiad o'r ffactorau risg o niwed sy'n debygol o effeithio ar blant a phobl ifanc yn un o'r canfyddiadau allweddol yn ein holl arolygiadau ac mae'n faes i wella arno'n genedlaethol. Mae'r canfyddiadau ar ôl i ni ddarllen y ffeiliau'n awgrymu, er bod plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod yn agored i asesiad risg o niwed llawn, lle y bo'n briodol, na'u cymheiriaid gwyn, mai dim ond 52% o achosion a gyfeiriwyd at reolwr i'w hadolygu, o gymharu â 64% o blant a phobl ifanc gwyn. Roeddem yn arbennig o bryderus o weld, yn y nifer fach o achosion lle yr ystyriwyd bod cynllun diogelu amlasiantaeth yn briodol, neu fod achos y plentyn neu'r person ifanc wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant, bod camau gweithredu o'r cynlluniau dilynol ar gyfer plant a phobl ifanc du neu leiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o gael eu hintegreiddio'n briodol i mewn i waith a wneir gan y TTI. Roedd lle i wella ar waith yn y maes hwn yn gyffredinol.

Hefyd cawsom gyfle i adolygu'r gwaith a wnaed gyda phlant a phobl ifanc oedd yn mynd i'r ddalfa a'r rhai a oedd ar fin cael eu rhyddhau. Nid oedd y goruchwylwyr achos yn cymryd rhan mor aml yn y gwaith o gynllunio ac adolygu dedfrydau gyda phlant a phobl ifanc du neu leiafrifoedd ethnig ac, yn bwysig, roedd y gwaith a wnaed cyn eu rhyddhau, er enghraifft mewn perthynas ag anghenion addysgol neu lety, yn llai tebygol o ddiwallu'r angen a aseswyd.

Fodd bynnag, parhawyd â'r gwaith y dechreuwyd arno yn y ddalfa ar ôl iddynt gael eu rhyddhau mewn cyfran uwch o'r achosion oedd yn cynnwys plant a phobl ifanc du neu leiafrifoedd ethnig na'r achosion oedd yn cynnwys plant a phobl ifanc gwyn.



Mae gwaith a wneir gyda dioddefwyr troseddau, a strategaethau a rhaglenni a gynlluniwyd i gynyddu ymwybyddiaeth o effaith troseddau wedi ffurfio rhan sylweddol o'n methodoleg arolygu. Gwelwyd bod mwy o bobl yr effeithiwyd arnynt gan droseddau wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gwaith adferol a gwaith arall, yn cynnwys rhybuddion terfynol, gyda phlant a phobl ifanc du a lleiafrifoedd ethnig na chyda phlant a phobl ifanc gwyn. Fodd bynnag, roedd nifer yr unigolion a fanteisiodd ar y cyfleoedd hyn yn gyfyngedig iawn ac roedd dioddefwyr yn fwy tebygol o gymryd rhan pan oedd y plentyn neu'r person ifanc yn wyn.



Yn gyffredinol, roedd gennym bryderon nad oedd yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer plant a phobl ifanc du a lleiafrifoedd ethnig bob amser yn gyson â'r risg a aseswyd neu'r tebygolrwydd y byddent yn

aildroseddu. Fodd bynnag, pan oedd plant a phobl ifanc du neu leiafrifoedd ethnig yn derbyn gofal, gwelwyd bod y gwasanaethau cymdeithasol yn cymryd rhan briodol a bod y TTI wedi ymgynghori â hwy mewn 93% o achosion.

Gwelwyd bod gwahaniaethau yn y ddarpariaeth ar gyfer merched a menywod ifanc yn llai sylweddol na'r gwahaniaethau rhwng plant a phobl ifanc o gefndiroedd ethnig. Yn gyffredinol, gwelwyd yn y rhan fwyaf o feysydd gwaith, nad oedd gwahaniaethau yn ansawdd a safon y gwaith yn sylweddol. Roedd rhieni/gofalwyr merched a menywod ifanc yn fwy tebygol o gymryd rhan yn yr asesiadau cychwynnol ac yn y rhaglenni magu plant; fodd bynnag, roedd eu dioddefwyr yn llai tebygol o gael gwahoddiad i gymryd rhan mewn gwaith adferol neu waith arall.

CASGLIAD

Mae'r canfyddiadau o'r arolygiadau'n awgrymu efallai nad yw rhai plant a phobl ifanc du a lleiafrifoedd ethnig yn cael mynediad i wasanaethau fel addysg, iechyd ac ymyriadau cyfiawnder adferol, a allai effeithio'n gadarnhaol ar eu troseddu a byddwn yn rhoi sylw parhaus i hyn yn ystod cam tri y rhaglen arolygu.

Er nad ydynt yn benodol i unrhyw un TTI, gallai nifer o faterion egluro'r canfyddiadau. Un o'r materion allweddol yw diffyg hyfforddiant craidd am faterion amrywiaeth mewn llawer o TTI, a'r methiant dilynol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin ar draws y tîm ynghylch y ffyrdd y gall anghydraddoldeb ddod i'r amlwg. Efallai mai un o'r ffactorau eraill sy'n cyfrannu at hyn yw methiant llawer o TTI i nodi a monitro ffactorau sy'n ymwneud ag ethnigrwydd ac amrywiaeth yn rhagweithiol, yn arbennig crefydd. Crëwyd argraff arbennig o dda arnom gan y rheolwyr hynny oedd yn rhagweithiol wrth nodi cyfleoedd a chydberthnasau gyda phartneriaid a darparwyr gwasanaethau i fynd i'r afael â gwahaniaethau o'r fath ac a oedd, drwy wneud hynny, yn rhoi arweiniad clir i'w staff o ran pwysigrwydd hybu amrywiaeth.

Arfer da

Ystyriodd TTI Lambeth anghenion amrywiol y plant a'r bobl ifanc yr oedd yn gweithio gyda hwy a datblygodd raglen waith grŵp i fenywod ifanc a grŵp hunanddatblygiad i bobl ddu. Sefydlwyd grŵp goruchwyliaeth estynedig am 12 wythnos, a oedd yn cynnwys rhaglen ymddygiad gwybyddol, ar gyfer plant a phobl ifanc yr oedd eu troseddau yn ddigon difrifol i ddenu dedfryd o garchar.

SAFBWYNTIAU DEFNYDDWYR Y GWASANAETH

Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym yn gofyn i blant a phobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr ac, os yw'n briodol, dioddefwyr eu troseddau, am eu barn am y gwaith a wneir gan y TTI.

Gwnawn hyn naill ai drwy gyfweliad unigol, neu drwy ofyn iddynt gwblhau holiadur. Mae plant a phobl ifanc hefyd yn cael y dewis o leisio eu barn drwy holiadur rhyngweithiol gan ddefnyddio cyfrifiadur. Mae'r ymagwedd hon wedi ein galluogi i gyrraedd ystod ehangach o blant a phobl ifanc na'r hyn a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall: o'r 11 TTI yr ymwelwyd â hwy yn ystod ail gam y rhaglen arolygu, cwblhaodd 85 o blant a phobl ifanc yr holiadur rhyngweithiol. Mae wedi rhoi darlun gwerthfawr i ni o waith TTI o safbwynt defnyddwyr y gwasanaeth a bydd yn ffurfio rhan gynyddol bwysig o'r fethodoleg arolygu yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn gadarnhaol ynghylch eu profiad gyda'r TTI. O'r 85 a gwblhaodd yr holiadur rhyngweithiol yn ystod 2004/2005:

- Dywedodd 43 (52%) eu bod yn bendant wedi rhoi'r gorau i droseddu neu greu trwbwl ers cael eu gorchwylio gan y TTI
- Credai 60 (71%) fod mynd i'r TTI wedi newid eu bywydau er gwell
- Roedd 51 (60%) yn glir ynghylch yr hyn yr oedd yn rhaid iddynt ei wneud yn wahanol. Ar ôl gofyn beth oedd hynny'n ei olygu:
  - dywedodd 62 (40%) ei fod yn golygu aros allan o drybini
  - dywedodd 39 (25%) ei fod yn golygu edrych ar bethau oedd yn eu harwain i drybini
  - dywedodd 18 (12%) ei fod yn golygu gwneud iawn â'r dioddefwyr.

Roedd yn amlwg bod rhinweddau eu gweithiwr TTI yn bwysig iawn i'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc:

- dywedodd 51 (60%) fod eu gweithiwr yn gymwynasgar
- dywedodd 65 (78%) fod y gweithiwr bob tro yn gwrando arnynt
- dywedodd 67 (81%) eu bod yn credu iddynt gael eu trin yn deg a chyda pharch
- dywedodd 65 (77%) fod eu gweithiwr yn siarad â hwy mewn ffordd y gallent ddeall.

Pan ofynnwyd sut yr oedd y TTI wedi eu helpu:

- dywedodd 20 (24%) eu bod yn teimlo'n wahanol amdanynt eu hunain
- roedd 43 (52%) yn teimlo'n wahanol ynghylch troseddu
- roedd 24 (28%) yn dod ymlaen yn well gydag eraill.

Nid oedd pawb mor gadarnhaol. Dim ond 48 (57%) a ddywedodd fod eu gweithiwr wedi gwneud yr hyn yr oeddent wedi dweud y byddent yn ei wneud.

Mae'n amlwg fod gallu siarad â rhywun, heblaw am deulu a ffrindiau, yn bwysig iawn i lawer o blant a phobl ifanc ac mai dyma un o'r pethau y maent yn ei werthfawrogi fwyaf am y TTI. Dywedwyd:

- *"Rwy'n cael siarad yn rhydd a thrafod materion preifat."*
- *"Addysgodd y TTI mi i barchu pobl eraill ac i barchu fy hun."*
- *"Rwy'n cael siarad gyda fy ngweithiwr TTI ac mae'n gwrando arnaf, beth bynnag a ddywedaf, nid dim ond gwneud ei swydd y mae, mae'n gofalu amdanaf."*
- *"Gallu siarad am bethau na allwn siarad gyda fy mam amdanynt."*
- *"Mae'n gyfle da i drafod problemau neu rywbeth sy'n fy mhoeni. Mae wedi fy helpu i sylweddoli os bydd rhywbeth o'i le, nad cyflawni trosedd yw'r ffordd i wella pethau."*
- *"Mae'r TTI wedi fy helpu i feddwl am fy nyfodol."*
- *"Rwyf yn hoffi rhai o'r pethau rwyf yn eu gwneud yn y TTI am eu bod yn fy helpu i weld pethau mewn ffyrdd gwahanol."*

Roedd mynd i'r TTI yn fwy heriol i rai plant a phobl ifanc. Pan ofynnwyd iddynt beth nad oeddent yn ei hoffi ynghylch mynd i'r TTI, dywedwyd:

- *"Mae'n boenus edrych ar rai materion."*
- *"Siarad am fy nhroseddau a sut maent yn brifo pobl."*
- *"Gormod o bobl fel fi."*

Roedd eraill yn fwy chwerw o ran y cyfyngiadau a roddwyd arnynt. Pan ofynnwyd iddynt beth nad oeddent yn ei hoffi ynghylch mynd i'r TTI, dywedwyd:

- *"Nid wyf yn hoffi dod i mewn ddwywaith yr wythnos."*
- *"Codi yn y bore i wneud iawn i'r gymuned."*
- *"Cyfarfodydd diflas."*
- *"Pobl yn pregethu o hyd."*

Er bod nifer y rhieni/gofalwyr a welwyd yn ystod yr arolygiad yn rhy fach i ddadansoddi ystadegau, roedd y mwyafrif y cyfwelwyd â hwy yn gadarnhaol iawn ynghylch eu cyfranogiad gyda TTI, fel y dangoswyd yn y sylwadau canlynol:

- *"Pe na bai am y TTI, ni fyddwn yn gallu ymdopi. Maent yn bobl dda ac mae'n ymddangos eu bod yn deall beth mae rhieni a phlant yn mynd drwyddo."*
- *"Roeddwn yn mynd bob dwy i bedair wythnos i gael help gyda sut i ymdopi gyda'm mab. Rydym yn agosach nawr; mae'n siarad yn llawer gwell gyda mi ac yn ymddiried ynof."*
- *"Y peth gorau ynghylch yr holl broses oedd gallu siarad gyda fy mab, cael sgwrs gall a gallu ei gofleidio."*

ADBORTH GAN TTI

EIN GWEITHDREFN GWYNO A CHOD YMARFER

Ers i'r arolygiadau TTI ddechrau am y tro cyntaf ym mis Medi 2003 rydym wedi ceisio sicrhau bod ein prosesau arolygu'n cael eu cynnal gyda chywirdeb, mewn modd proffesiynol, diduedd a chwrtais. Mae Gweithdrefn Gwyno a Chod Ymarfer Arolygiaeth Prawf EM – sydd ar wefan Arolygiaeth Prawf EM – yn pwysleisio egwyddorion annibyniaeth, ymgynghori, sylfaen tystiolaeth gadarn, hybu amrywiaeth a chydraddoldeb ac adborth amserol.

Rydym yn cymhwyso'r egwyddorion hyn yn ein harolygiadau. Er na chawsom unrhyw gwynion o dan ein gweithdrefnau yn ystod 2004/2005, cawsom rai sylwadau ar y broses. Roedd y mwyafrif o'r arsylwadau hyn ar ffurf beirniadaeth adeiladol yn hytrach na phryder. Ystyriwyd pob sylw o ddifrif gan geisio dysgu ohonynt.

ADBORTH GAN STAFF TTI Y CYFWELWYD Â HWY YN 2004/2005

Rhoddir cyfle i bob un y cyfwelir â hwy yn ystod y broses arolygu i roi sylwadau ar eu profiad. Gellir rhoi'r adborth hwn, gan staff y TTI ac aelodau sefydliadau partner yn ddienw ac fe'i defnyddir i lywio arfer unigol arolygwyr a gwaith y tîm yn gyffredinol.

Derbyniwyd 118 o ymatebion o'r 15 TTI yr ymwelwyd â hwy fel rhan o gam dau yn 2004/2005. Dangosir eu sylwadau yn y tabl canlynol:

	√ neu i raddau	**x**
A gawsoch ddigon o rybudd ymlaen llaw o'r arolygiad?	99%	1%
A oeddech yn glir ynghylch pwrpas yr arolygiad?	98%	2%
A oeddech yn ystyried bod y gofynion arnoch chi a/neu eich staff yn rhesymol?	91%	9%
A gynhaliwyd y trafodaethau gyda chi mewn modd proffesiynol, diduedd a chwrtais?	98%	2%
Yn eich barn chi, a roddodd yr arolygydd ddigon o sylw i gydraddoldeb hil a materion amrywiaeth ehangach?	95%	5%
Os cawsoch adborth unigol gan staff Arolygiaeth Prawf EM am eich gwaith a oedd yn ddefnyddiol?	96%	4%

Mae'n amlwg y gwelir y broses fel proses fanwl ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar gam tri'r arolygiad i sicrhau bod y gofynion a osodir ar dimau yn rhesymol. Fodd bynnag, rydym yn falch o nodi bod o leiaf naw o bob deg o'r bobl y cyfwelwyd â hwy fel rhan o'r arolygiad o'r farn y bu'r broses yn ddefnyddiol.

AROLWG O REOLWYR TTI

Yn ogystal â gofyn am adborth gan aelodau unigol o'r staff, cynhaliwyd arolwg bach o reolwyr y TTI hynny a arolygwyd yn 2004/2005. Er mai dim ond deg ymateb allan o 20 o ymatebion posibl a dderbyniwyd, roedd y canlyniadau yn ddiddorol ac fe'u defnyddiwyd i lywio ein proses gynllunio ar gyfer cam tri. Gofynnwyd i TTI ystyried y trefniadau ar gyfer paratoi ar gyfer arolygiad, aseswyr ardal hyfforddiant, strwythur yr adroddiadau a chysylltiadau â'r tîm arolygu ar y cyd. Dangosir yr ymatebion yn y tablau canlynol:

	Rhagorol neu ddigonol	**Ddim yn ddigonol neu'n wael**
A roddodd y wybodaeth a ddarparwyd yn y llythyr cychwynnol ddigon o arweiniad ar yr arolygiad?	9	1
A oedd y cyfarfod cynllunio'n ddefnyddiol wrth nodi tasgau a rhoi eglurder ynghylch pwrpas yr arolygiad?	10	0
A wnaeth y wybodaeth a gawsoch a'r cyfarfod cynllunio eich helpu i baratoi: • eich staff ar gyfer yr arolygiad • y dogfennau • logisteg yr arolygiad?	 8 9 7	 2 1 3
A oedd yr hunanasesiad yn ddefnyddiol wrth i chi baratoi ar gyfer yr arolygiad o'r TTI?	7	3

Er bod yr adborth yn awgrymu bod y trefniadau cychwynnol yn foddhaol, mae'n amlwg y gellid gwneud mwy i gynorthwyo rheolwyr TTI i drefnu gweithgareddau arolygu a'u helpu i baratoi eu staff. Fel rhan o'n proses gynllunio ar gyfer cam tri yr arolygiad, rydym yn ailddrafftio'r briff a roddir i staff ar ddechrau'r arolygiad er mwyn iddynt wybod yn well beth i'w ddisgwyl o'r broses. Rydym hefyd wedi adolygu'r fformat hunanasesu'n gyfan gwbl, er mwyn iddo gyd-fynd â'r model a fabwysiadwyd gan y Cydadolygiadau Ardal yn y gobaith y bydd TTI yn gallu cyfrannu at y ddwy broses arolygu heb unrhyw ddyblygiad. Rydym yn bwriadu adolygu'r fformat hunanasesu newydd ar ôl cwblhau'r pedwar arolygiad cyntaf, gan ymgynghori â'r TTI dan sylw.

Hefyd holwyd rheolwyr TTI ynghylch cyfranogiad eu staff yn y broses arolygu fel aseswyr ardal.

	Rhagorol neu ddigonol	**Ddim yn ddigonol neu'n wael**

A oedd yr hyfforddiant ar gyfer aseswyr ardal yn ddigonol?	8	2
A roddwyd digon o wybodaeth i'r aseswyr ardal?	8	2
A wnaethoch ddefnyddio'r aseswyr ardal i roi'r gwersi a ddysgwyd ar ôl yr arolygiad ar waith?	7	0

Rydym yn gwerthfawrogi cyfranogiad aelod o staff y TTI yn yr arolygiad fel asesydd ardal. Mae ganddynt ddealltwriaeth ddefnyddiol o waith y TTI a gallant ein helpu i roi ein canfyddiadau mewn cyd-destun. Mae'r rhan fwyaf yn uwch ymarferwyr neu'n rheolwyr achos. Gobeithio y bydd y profiad yn un cadarnhaol iddynt hwy hefyd, ac y llwyddodd eu cyfranogiad yn yr ymarfer darllen ffeiliau achosion i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'r materion a godwyd ar draws y TTI. Fodd bynnag, rydym wedi cydnabod yr angen i wella ar yr hyfforddiant a gynigir i aseswyr ardal hyd yn oed cyn cael adborth gan y TTI ac rydym wedi dyfeisio pecyn dysgu o bell, ac yn ei gyflwyno ar ffurf peilot ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn ystyried y posibilrwydd o gynnig sesiynau briffio i rai grwpiau er mwyn rhoi'r cyfle i aseswyr ardal gwrdd a chymharu profiadau.

Adborth gan aseswr ardal a gymerodd ran yn y broses arolygu:

"Yn gyffredinol, roedd y profiad yn un hynod ddiddorol, gwerthfawr a gwerth chweil. Yn ogystal â gwella fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o weithdrefnau a phrotocol TTI, fe'm galluogodd i fabwysiadu ymagwedd fwy gwerthusol a beirniadol tuag at fy ngwaith. Galluogodd y profiad i mi chwarae rhan weithredol mewn digwyddiad pwysig ar gyfer TTI Merthyr Tudful."

Rhan o'n gwaith paratoi ar gyfer cam tri yr arolygiad oedd adolygu fformat adroddiad y TTI a gofynnwyd i reolwyr TTI roi sylwadau ar ei strwythur. Hefyd cynhaliwyd arolwg o nifer o reolwyr TTI, gan ofyn iddynt yn benodol am eu sylwadau ar gynllun yr adroddiad. Yna defnyddiwyd eu hadborth i lywio newidiadau a wnaed i'r adroddiad a fydd, gobeithio, yn sicrhau ei fod yn fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach.

Caiff y system sgorio ei hail-archwilio fel rhan o'n hymdrechion i sicrhau bod ein prosesau yn gyson â'r Cydadolygiadau Ardal.

	Rhagorol neu ddigonol	Ddim yn ddigonol neu'n wael
Rhowch sylwadau ar strwythur adroddiadau'r arolygiadau ar y cyd:		
• system sgorio	2	4
• enghreifftiau o arfer da	5	1
• argymhellion	5	1
• sylwadau ar gryfderau'r TTI	6	0
• sylwadau ar feysydd i'r TTI wella arnynt	5	0

Yn olaf, gofynnwyd i reolwyr TTI roi sylwadau ar eu profiad o gyfathrebu â'r tîm arolygu ar y cyd. Mae eu hadborth yn awgrymu, er bod y broses yn dderbyniol cyn ac yn ystod wythnosau'r gwaith maes, bod angen i ni ailystyried sut rydym yn cysylltu â TTI ar ôl hynny, yn ystod y cyfnod pan gaiff yr adroddiad ei gwblhau. Bydd angen ystyried y mater penodol hwn yn ofalus yn y dyfodol o dan gam tri yr arolygiad, gan y bydd y broses, yn anochel, yn cael ei hymestyn pan gynhelir gwaith maes ar gyfer arolygiad y TTI cyn gwaith maes y Cydadolygiadau Ardal.

	Rhagorol neu ddigonol	Ddim yn ddigonol neu'n wael
Yn gyffredinol, pa mor dda oedd y cyfathrebu/cysylltiad gyda'r tîm arolygu ar y cyd:		
• Cyn yr arolygiad?	10	0
• Yn ystod yr arolygiad?	9	1
• Ar ôl yr arolygiad?	5	3

CASGLIAD

Roeddem yn ddiolchgar iawn i'r nifer o reolwyr a staff TTI a roddodd o'u hamser i ddweud wrthym am eu profiad o'r broses arolygu. Roedd eu sylwadau'n addysgiadol iawn yn ddieithriad ac yn gwrtais. Maent wedi ein helpu i ddatblygu'r broses arolygu.

CAMAU NESAF

Buom yn canolbwyntio llawer ar ddatblygu trydydd cam yr arolygiad yn ystod 2004/2005. Rydym wedi bod mewn cysylltiad agos â chydweithwyr mewn arolygiaethau eraill, yn arbennig Ofsted a'r Comisiwn Archwilio, er mwyn sicrhau bod ein hymagwedd yn cyd-fynd ag ymagwedd y Cydadolygiadau Ardal a'r Asesiad Corfforaethol. Mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar y papur gwyrdd *Mae Pob Plentyn yn Bwysig* (2003) a bydd yn bodloni gofynion Deddf Plant (2004). Ein prif nod oedd adeiladu rhaglen arolygu sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd y cyfraniad a wnaed gan TTI tuag at greu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda'n cydarolygiaethau i greu methodoleg integredig, yn seiliedig ar rannu canfyddiadau a data arolygiadau, ac osgoi achosion o ddyblygu. I'r perwyl hwn, rydym wedi croesgyfeirio ein meini prawf arolygu gyda'r barnau allweddol ar gyfer y Cydadolygiadau Ardal a'r llwybrau ymholi ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol, ac wedi datblygu proses hunanasesu ar gyfer TTI sy'n cyd-fynd â'r hyn sy'n ofynnol gan y Cydadolygiadau Ardal. Bydd ein cyfranogiad yn un o'r Cydadolygiadau Ardal/Asesiad Corfforaethol cyfun peilot yn ystod 2005/2006 yn rhoi'r cyfle i ni brofi llwyddiant yr ymagwedd hon a gwneud unrhyw ddiwygiadau sy'n angenrheidiol cyn gweithredu trydydd cam yr arolygiad ym mis Gorffennaf 2005.

CASGLIAD

O'r cychwyn, datblygwyd yr arolygiad TTI fel proses amlarolygiaeth, gyda'r tîm arolygu yn adlewyrchu cyfansoddiad y TTI eu hunain, gan gwmpasu cyfiawnder troseddol a gofal cymdeithasol. Wrth i ni symud i mewn i drydydd cam ein proses arolygu, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y gwaith o atal plant a phobl ifanc rhag troseddu ac aildroseddu, tra'n cydnabod eu hanghenion, diogelu eu hawliau a hybu eu lles. Credwn y bydd ein gwaith nid yn unig yn gwella o ganlyniad i'n cyfranogiad â'r Cydadolygiadau Ardal a'r Asesiad Corfforaethol, ond y byddwn hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at y prosesau hyn, gan amlygu gwaith TTI gyda phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Felly, edrychwn ymlaen at 2005/2006 yn hyderus.